
# CYNLLUN Y CYNGOR

## ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL

**2023-24**







wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

# EIN GWERTHOEDD:

GRYMUSO

YMDDIRIEDAETH A GONESTRWYDD

DYHEAD CYDWEITHIO

GWNEUD GWAHANIAETH

TEGWCH

Ategir y rhain gan Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan') sy'n berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swydd gyhoeddus, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hethol neu eu penodi i swydd gyhoeddus.



# CYNNWYS

Ein Gwerthoedd: . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 2

Rhagair . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 4

Sut Rydym yn Asesu ein Cynnydd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 8

Crynodeb o Berfformiad . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9

Rheoli Eich Arian a Chyllideb Y Cyngor. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .12

Cyllidebu Ariannol 2024/25 . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .13

Ymgysylltu ac Ymgynghori . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .14

Blaenoriaethau Ein Cyngor. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .15

Darparu Gwasanaethau Stryd Effeithlon a Datgarboneiddio Ein Hamgylchedd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .15

Datblygu'r Economi . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 25

Sicrhau Bod Wrecsam Yn Lle Teg A Diogel. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 32

Gwella Addysg A Dysgu . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 40

Hybu Iechyd A Lles Da (Gan Ganolbwyntio Ar Wasanaethau Cymdeithasol Ac Iechyd Meddwl Da) . . 50

Cefnogi Gweithlu Tra Medrus A Brwdfrydig, Sy'n Canolbwyntio Ar Ddarparu Gwasanaethauanaethau. . . . . . . . . . . . . 59

Atodiad 1
Perfformiad Canlyniad Cydraddoldeb . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 66

# RHAGAIR

Ar ddechrau 2024 lansiwyd ein Cynllun y Cyngor newydd (2023-28) a oedd yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bod yr holl bobl sy'n byw yma yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial, ffynnu a chyflawni safon uchel o les. Byddwn yn arweinydd cymunedol cryf a chynhwysol i helpu i wneud i hyn ddigwydd, gyda chanolbwynt gryf ar ymddygiadau a gwerthoedd cryf.

Mae Cynllun y Cyngor yn manylu ar ein chwe Amcan Lles, yr ydym yn eu galw'n flaenoriaethau'r cyngor, a'r canlyniadau yr ydym am eu cyflawni o fewn y rhain i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Wrecsam a'n cyfraniad at Nodau Lles Cymru.

Nod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yw cyflwyno crynodeb o'n gwerthusiad o lwyddiant ar ddiwedd blwyddyn gyntaf ein Cynllun y Cyngor newydd (2023-28). Rydym yn cynhyrchu'r adroddiad hwn bob blwyddyn i adolygu'r cynnydd rydym wedi'i wneud ar ein taith wella tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, sef blwyddyn gyntaf ein Cynllun y Cyngor newydd.

Mae'r adroddiad yn asesiad o gynnydd yn erbyn chwe blaenoriaeth ein cyngor ac mae cymaint yn ein Bwrdeistref Sirol i fod yn falch ohono tra'n cydnabod, deall ac ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion sy'n dod i'r amlwg. Drwy gydol yr adroddiad hwn rydym yn falch o rannu cyflawniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, tra'n cydnabod lle nad oedd y cynnydd a wnaed yn unol â'r disgwyl a chydnabod effaith barhaus lleihau cyllidebau cynghorau.

Yn ddiamau, effeithiodd yr heriau cyllidebol i'r cyngor ar y cynnydd ar rai meysydd gwaith a gynlluniwyd. Ynghyd â'r argyfwng costau byw, creodd hyn galedi a heriau i'n cyngor a'n cymunedau, bu'n rhaid i ni ystyried lle y gallwn wneud arbedion a dod o hyd i ffyrdd gwell o wneud pethau, tra'n ymrwymo i'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gymunedau Wrecsam. Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer y dyfodol wedi ychwanegu pwysau ariannol ychwanegol ar y cyngor gan ei bod yn ofynnol i ni ddod o hyd i arbedion ac effeithlonrwydd oherwydd llai o gyllid.

Mae'r rhagolygon economaidd ar gyfer pob cyngor lleol yn edrych yn arbennig o heriol dros y tair blynedd nesaf. Mae costau cynyddol, pwysau cyflog a galw wedi bod yn fwy na'r cyllid yn y flwyddyn ariannol gyfredol a byddant yn parhau i wneud hynny yn seiliedig ar yr asesiadau diweddaraf yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). (I ddarllen ein CATC ewch i'n tudalen rhyngrwyd Cyllid y Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth hefyd wedi'i chynnwys ar y dudalen 'Rheoli eich arian' eich yn yr adroddiad hwn).

Er gwaethaf yr heriau parhaus, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni ein gweledigaeth ac rydym yn benderfynol o beidio â gadael i hyn leddfu ein cyffro ynghylch dyfodol Bwrdeistref Sirol Wrecsam, y prosiectau adfywio a'r buddsoddiad sy'n dod i'r ardal.

Rydym hefyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau anghydraddoldebau ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae ein canlyniadau cydraddoldeb wedi'u plethu drwy ein Cynllun y Cyngor (2023-28) i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni

ein hymrwymiad i gyflawni canlyniadau gwell a thecach i bawb, gan hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a lleihau effaith anfantais economaidd-gymdeithasol. Gallwch ddarllen mwy am y cynnydd rydym wedi'i wneud tuag at gyflawni pob un o chwe blaenoriaeth y cyngor a'r gwaith a gwblhawyd tuag at ein canlyniadau cydraddoldeb yn nhudalennau blaenoriaethau unigol yr adroddiad hwn ac Atodiad 1.

Yn gyffredinol, rydym yn gwneud cynnydd da ac mae uchafbwyntiau 2023/24 yn cynnwys:

- Gweithredu ein Hadnodd Asesiad o Effaith Carbon. Mae'r adnodd yma'n sicrhau ein bod yn ystyried effaith carbon ein penderfyniadau, gan gynnwys datgarboneiddio ym mhopeth y gwnawn ni.
- O ran defnyddio adeiladau gwag neu sy'n cael eu tanddefnyddio eto o fewn 3 blynedd ers i'r Cyngor fod yn rhan o'r broses, rydym wedi rhagori ar ein targed, sef 2, o 9. Sicrhau bod ein hardal leol yn parhau i wella, ffynnu a chynnig gwytnwch at y dyfodol.
- Cyflawnodd ymagwedd ragweithiol 541 o ymyriadau i ddatrys peryglon mewn tai sector preifat, gryn dipyn yn uwch na'r llinell sylfaen a'r ffigwr targed o 300 o ymyriadau.
- Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2022/23, fe symudodd 93.3% o ddysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol Blwyddyn 11 yn llwyddiannus o ysgol statudol i addysg, gwaith neu hyfforddiant. Gwelliant sylweddol o 89% yn 2021/22.
- Gostyngiad sylweddol yn y rhestr aros am asesiadau therapi galwedigaethol statudol, gyda 600 o atgyfeiriadau yn cael eu darparu'n allanol yn llwyddiannus, ac mae canlyniadau cadarnhaol i'w gweld o ran lleihau rhestrau aros yn sgil datblygu Clinig Therapi Galwedigaethol newydd.
- Gostyngodd cyfraddau absenoldeb y gweithlu yn y cyngor yn 2023/24, gyda chefnogaeth diwylliant rheoli pobl cryf, rhaglen lles gweithwyr a gwell rheolaeth ar absenoldeb salwch.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod lle rydym wedi wynebu heriau a lle mae angen i ni wella gan gynnwys:

- Roedd ein perfformiad o ran ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff yn 2023/24 yn is na tharged statudol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i archwilio mentrau er mwyn gwella cyfraddau ailgylchu ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Effeithiwyd ar nifer y canlyniadau swyddi ar draws y Fwrdeistref Sirol o 'Cymunedau am Waith a Mwy' gan ostyngiad mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r broses ddiswyddo ddilynol. Fodd bynnag, i mewn i 2024/25 mae'r tîm yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni er gwaethaf heriau o ran adnoddau, gan weithio tuag at dargedau is a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Gohiriwyd y gwaith o weithredu ein Strategaeth Trechu Tlodi 2023-28 o ganlyniad i adnoddau, bydd gwaith yn parhau i 2024/25 i symud ymlaen a mabwysiadu'r strategaeth.
- Roedd nifer y dysgwyr â phresenoldeb o dan 85% yn is na'n llinell sylfaen ar gyfer 2022/23. Yn 2024/25 byddwn yn parhau i gynnig cymorth pwrpasol i ysgolion lle mae

lefel uchel o ddysgwyr yn parhau i beidio â mynychu'r ysgol yn rheolaidd er mwyn ailymgysylltu a gwella presenoldeb.

- Mae recriwtio gofalwyr maeth yn parhau i fod yn her. Yn 2024/25 byddwn yn parhau i weithio gyda Maethu Cymru a chynnal digwyddiadau recriwtio a marchnata i hyrwyddo cyfleoedd o fewn maethu.
- Bydd heriau ariannol anrhagweladwy yn gofyn am ffocws gofalus ar reoli pobl ar draws y cyngor, gan sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi a bod ffocws iechyd a lles yn cael ei gynnal trwy gyfnod o newid.

I danategu ein gwaith tuag at ein gweledigaeth a chyflawni newid mae angen i ni sicrhau ein bod yn gyngor effeithiol drwy adolygu sut rydym yn gweithio a pha mor effeithlon rydym yn defnyddio ein hadnoddau. Yn 2023, cwblhawyd ein hail hunanasesiad o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) newydd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor gyhoeddi adroddiad hunanasesu o ganfyddiadau'r adolygiad. Gallwch ddarllen ein hadroddiad hunanasesu drwy fynd i'n tudalen rhyngrwyd hunanasesu. Byddwn yn parhau i adolygu ein gwaith, yn cyhoeddi ein hunanasesiad yn flynyddol ac yn ymateb i ganfyddiadau i gefnogi gwireddu ein gweledigaeth.

Dim ond ar ddechrau ein Cynllun y Cyngor newydd yr ydym ac er gwaethaf heriau'r dyfodol rydym yn dal yn gyffrous ac yn uchelgeisiol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Rydym yn cydnabod yr angen i wneud arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol ac rydym yn bwriadu ymateb i gyllidebau'r dyfodol yn erbyn cefndir o alw cynyddol am wasanaethau lleol. Yn ystod y cyfnod heriol hwn, fel y gwelsom yn ystod pandemig Covid-19, rydym yn parhau i weld ysbryd tîm ein cymuned yn Wrecsam yn trechu. Rydym yn cydnabod na allwn gyflawni gweledigaeth ein Cynllun y Cyngor heb waith ein cynghorwyr, gweithlu, cymunedau a phartneriaid a'u hymrwymiad, cydweithrediad a phenderfyniad i ddarparu a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau Wrecsam o dan amgylchiadau heriol. Rydym yn falch o'r hyn a gyflawnwyd ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i ddathlu'r llwyddiannau niferus yn ogystal â chyfle i fyfyrio; adolygu ein targedau, ein disgwyliadau a chytuno ar ffyrdd newydd mwy effeithlon o weithredu yn wyneb yr hinsawdd bresennol. Wrth sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at ein gweledigaeth ar gyfer pobl a chymunedau Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

**Y CYNGHORYD MARK PRITCHARD**
**ARWEINYDD Y CYNGOR**

**Y CYNGHORYDD PAUL ROBERTS**
**AELOD ARWEINIOL DROS BARTNERIAETHAU A DIOGELWCH CYMUNEDOL**

**IAN BANCROFT**
**PRIF WEITHREDWR**

# YR ADRODDIAD HWN

Ym mis Ionawr 2024, fe gyhoeddom ein Cynllun y Cyngor (2023-24) sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Y Cyngor

Ein cynllun yw'r lle rydym yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer y cyngor am y pum mlynedd nesaf; mae'n rhoi gweledigaeth a chyfeiriad ar gyfer yr hyn byddwn yn gweithio tuag ato yn y tymor canolig drwy ganolbwyntio ar ddyfodol hirdymor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae Cynllun y Cyngor hefyd yn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y saith nod lles cenedlaethol ar gyfer Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac amcanion lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam (BGC). Mae'r cynllun yn manylu ar ein chwe blaenoriaeth y cyngor a'r canlyniadau, gan gynnwys ein canlyniadau cydraddoldeb strategol, yr ydym am weithio tuag atynt yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol hwn yn nodi dadansoddiad o ba mor dda y gwnaethom berfformio yn erbyn blaenoriaethau ein cyngor a'r canlyniadau o fewn y rhain, ar ddiwedd blwyddyn gyntaf Cynllun y Cyngor.

Mae'r crynodeb perfformiad yn cynnig crynodeb ciplun o'n sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 1, wedi'i bennu gan ein fframwaith rheoli perfformiad. Mae tudalennau 15 i 64 yn rhoi asesiad manylach o bob un o flaenoriaethau'r cyngor, gan gynnwys disgrifiad o'r gweithgareddau yr ydym wedi'u cyflawni i'w cefnogi.

Drwy gydol ein cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â Chynllun y Cyngor rydym wedi bod wedi ymrwymo i'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy,' sy'n ymwneud â gwneud yn siŵr ein bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau nad yw diwallu ein hanghenion presennol yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae'n golygu, wrth wneud penderfyniadau, ein bod yn:

- Ystyried yr hirdymor er mwyn sicrhau nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Cymryd ymagwedd integredig fel ein bod yn edrych ar sut mae ein blaenoriaethau yn effeithio ar ein nodau ac amcanion lles eraill a rhai cyrff cyhoeddus eraill;
- Cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, gan sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff;
- Gweithio gydag eraill (yn cynnwys pobl eraill o fewn y Cyngor) mewn ffordd gydweithredol er mwyn darganfod atebion a rennir i'r amcanion lles; a
- Deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu rhwystro rhag digwydd neu waethygu.

# SUT RYDYM YN ASESU EIN CYNNYDD

I wirio'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran cyflawni blaenoriaethau ein cyngor, rydym wedi mesur pa mor dda yr ydym yn gwneud yn erbyn mesurau canlyniadau allweddol y cytunwyd arnynt fel rhan o'n fframwaith rheoli perfformiad. Gallwch ddarllen mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad drwy fynd i'n tudalen Fframwaith Rheoli Perfformiad Cynllun y Cyngor.

Cafodd ein mesurau canlyniadau cytûn eu categoreiddio fel maes lle byddem, erbyn diwedd y flwyddyn, naill ai'n 'cynnal' ein perfformiad presennol neu'n 'gwella' arno o'n perfformiad yn y flwyddyn flaenorol.  Dylid nodi bod targedau i gynnal ein perfformiad presennol yn gallu bod yn dargedau heriol ac uchelgeisiol wrth eu hystyried yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael.

Mae ein cynnydd yn cael ei wirio bob chwarter gan Fyrddau Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, ac ar yr adegau hynny, lle nad yw'r meysydd yn bodloni'r disgwyliadau yna maen nhw'n cael eu hail-archwilio ac mae mesurau i fynd i'r afael â hynny'n cael eu cyflwyno. Ynghyd â hyn, mae'r perfformiad yn cael ei adrodd yn ôl i Fwrdd Gweithredol y Cyngor, Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol a'r Scrutiny Coordinating Group ddwywaith y flwyddyn

Ar gyfer pob mesur canlyniad a blaenoriaeth gyffredinol y cyngor, mae perfformiad ar ddiwedd pob blwyddyn o Gynllun y Cyngor wedi'i farnu yn erbyn y graddfeydd COMG canlynol.

### MESUR UNIGOL COMG

- **Gwyrdd:** Targed diwedd blwyddyn wedi'i gyflawni ac ar y trywydd iawn ar gyfer canlyniad.
- **Melyn:** Targed diwedd blwyddyn ychydig oddi ar y trywydd iawn ond ni chredwn y bydd hyn yn amharu ar gyflawniad y canlyniad.
- **Oren:** Targed diwedd blwyddyn oddi ar y trywydd iawn ac mae risg y gallai hyn amharu ar gyflawni'r canlyniad.
- **Coch:** Targed diwedd blwyddyn oddi ar y trywydd iawn ac mae risg na chaiff y canlyniad ei gyflawni.

### BLAENORIAETH GYFFREDINOL Y CYNGOR COMG

- **Gwyrdd:** Gwnaed cynnydd da iawn tuag at gyflawni canlyniadau a gwelwyd tystiolaeth gref o welliant ar draws y mwyafrif o fesurau.
- **Melyn:** Gwnaed cynnydd da tuag at gyflawni canlyniadau a gwelwyd tystiolaeth o welliant ar draws sawl mesur.
- **Oren:** Mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni canlyniadau ond tystiolaeth gyfyngedig o welliant ar draws mesurau.
- **Coch:** Ychydig o gynnydd a wnaed tuag at gyflawni canlyniadau ac nid yw perfformiad yn gwella.

# CRYNODEB O BERFFORMIAD

Mae llawer o ganlyniadau ein Cynllun y Cyngor wedi gweld gwelliant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, ac rydym wedi cyflwyno'r manylion hyn, ynghyd â rhai o'r uchafbwyntiau, yn ein hasesiad o bob blaenoriaeth cyngor, tudalennau 15 i 64.

Fodd bynnag, rydym wedi cydnabod nad yw ein holl fesurau canlyniadau o fewn ein blaenoriaethau cyngor ar y trywydd iawn, a thrwy ein trefniadau rheoli perfformiad, byddwn yn gallu ailffocysu ein gweithgareddau i barhau ar ein taith i gyflawni ein canlyniadau cytûn.

Wrth adolygu ein perfformiad, rydym hefyd wedi ystyried a yw blaenoriaethau'r cyngor yn dal mewn sefyllfa dda i helpu i gyflawni nodau llesiant Cymru. Rydym yn fodlon y dylent aros heb eu newid am ail flwyddyn y cynllun. Fodd bynnag, rydym wedi myfyrio ar y pwysau ar y gyllideb a'r galw am wasanaethau wrth osod ein targedau ar gyfer 2024/25 i adlewyrchu adnoddau, datblygiadau cenedlaethol a/neu flaenoriaethau lleol sy'n newid oherwydd galwadau cynyddol.

Gan ystyried y cyflawniadau a'r meysydd lle nad oedd cynnydd ar y trywydd iawn, rydym wedi graddio'r cynnydd tuag at ein chwe blaenoriaeth yn felyn ar y cyfan, mae hyn yn golygu bod cynnydd da wedi'i wneud tuag at gyflawni blaenoriaethau ein cyngor, a gwelwyd tystiolaeth o welliant ar draws sawl mesur canlyniad ym Mlwyddyn 1 y cynllun. Lle nad yw perfformiad oddi ar y trywydd iawn, ni chredwn y bydd hyn yn amharu ar gyflawniad nac wedi nodi fel maes y mae angen ei adolygu, yng ngoleuni pwysau cyllidebol yn y dyfodol.

Mae Tabl 1, yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r cynnydd cyffredinol rydym wedi'i wneud gyda phob un o'r chwe blaenoriaeth cyngor ar ddiwedd Cynllun y Cyngor.

*Tabl 1*

| BLAENORIAETH Y CYNGOR | COMG Cyffredinol |
|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Stryd Effeithlon a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd | Melyn |
| Datblygu'r Economi | Melyn |
| Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel | Melyn |
| Gwella Addysg a Dysgu | Melyn |
| Hybu Iechyd a Lles Da<br>(gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da) | Melyn |
| Cefnogi Gweithlu Tra Medrus a Brwdfrydig, sy'n Canolbwyntio ar Ddarparu Gwasanaethau | Melyn |

Tabl 2, yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r cynnydd yn gyffredinol yr ydym wedi wneud gyda phob un o'r 12 amcan cydraddoldeb sydd wedi'u cynnwys ym mlaenoriaethau ein cyngor.

*Tabl 2*

| CANLYNIADAU CYDRADDOLDEB | COMG Cyffredinol |
|---|---|
| Mae'r cyngor yn 'gyflogwr o ddewis' sy'n gallu recriwtio a chadw gweithlu amrywiol a chynaliadwy, gyda dull modern o weithio a fframwaith o wobrau a buddion i weithwyr. | Gwyrdd |
| Bydd unrhyw fylchau cyflog rhwng y rhywiau yn cael eu hadolygu a'u deall yn well.  Bydd gwaith priodol yn dechrau i ymdrin â'r bwlch hwn ac unrhyw fylchau eraill mewn cyflogau pan fo'n berthnasol. | Melyn |
| Mae ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu â ni'n hawdd, trwy systemau digidol sydd wedi'u hadeiladu i amgylch eu hanghenion. Mae ein gwasanaethau yn gynhwysol ac rydym yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r cwsmeriaid hynny a hoffai ddefnyddio ein gwasanaethau digidol, yn ogystal â pharhau i gynnig ffyrdd mwy traddodiadol o gysylltu â ni, ar gyfer y rhai sydd ei angen. | Gwyrdd |
| Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ffynnu o fewn ein gweithlu a'n cymunedau ac yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi. | Melyn |
| Mae Wrecsam yn lle y mae pawb yn gwybod y gallant gymryd rhan i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau. Pobl yn teimlo'r ymgysylltiad a bod y cyngor yn ymgynghori â nhw ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a ble bo'n bosib ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau; a gwneud i bethau ddigwydd gyda'n gilydd. | Gwyrdd |
| Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camfanteisio, trais a holl ffurfiau o gamdriniaeth, trwy weithio mewn partneriaeth i gynyddu ymwybyddiaeth o ddioddefwyr camfanteisio a'r llwybrau adrodd sydd ar gael. | Melyn |
| Mae ein cymunedau yn groesawgar, rydym yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth a diwylliannau ein cymunedau ac yn sicrhau mynediad priodol at bob gwasanaeth i bawb. | Gwyrdd |
| Mae pobl sy'n chwilio am loches rhag rhyfel neu argyfwng dyngarol yn cael eu cefnogi i adeiladu dyfodol cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol. | Gwyrdd |
| Caiff holl ddysgwyr gael eu cefnogi i wella eu canlyniadau addysgol, a bydd anghydraddoldebau mewn canlyniadau rhwng gwahanol grwpiau o ddysgu yn cael eu lleihau. | Melyn |
| Mae ein dysgwyr yn cael profiad dysgu cadarnhaol trwy fynediad at amgylchedd sy'n hygyrch ac yn addas i'r diben ac yn caniatáu dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. | Gwyrdd |
| Mae plant ac oedolion yn cael eu cefnogi i gael iechyd meddwl a lles da, trwy bartneriaethau gwasanaethau cyhoeddus  a chymunedau yn cydweithio. Mae canolbwynt ar gymorth iechyd meddwl a ddarperir drwy wasanaethau iechyd meddwl atal a chymorth cynnar er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau yn hwyrach ymlaen. | Melyn |
| Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau gofal cymdeithasol yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu defnyddio drwy wrando ar yr hyn y mae plant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr yn ei ddweud wrthym. | Oren |

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dyletswydd cydraddoldeb, elfen Cynllun Cydraddoldeb Strategol ein Cynllun y Cyngor, ein Hasesiadau Effaith Integredig a sut y gwnaethom ddatblygu ein canlyniadau cydraddoldeb ar ein tudalen Cydraddoldeb, Hawliau  Dynol a Chydlyniant Cymunedol.



# RHEOLI EICH ARIAN A CHYLLIDEB Y CYNGOR

Rhoddodd ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig ganllaw strategol ar waith i gynlluniau gwariant y cyngor ar gyfer y cyfnod 2023/24 i 2025/26 i gefnogi blaenoriaethau'r cyngor yng nghyd-destun cyllideb flynyddol gytbwys. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagdybio sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, gan nodi cyllidebau refeniw a chyfalaf dangosol ac yn rhagamcanu lefel debygol Treth y Cyngor a balansau'r Cyngor. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cefnogi rheolaeth gyffredinol o adnoddau allweddol y Cyngor i ddarparu Blaenoriaethau'r Cyngor. Fel rhan o'n Cynllun Ariannol Tymor Canolig, roedd y gyllideb a gymeradwywyd gan yr aelodau etholedig ar gyfer y flwyddyn 2023/24 â therfyn arian parod o £303,116,857. Mae'r tabl canlynol yn dangos y cyllid a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24:

| CYLLID | 2023/24 CYLLID £ |
|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru | 224,836,439 |
| Treth y Cyngor | 78,280,418 |
| **CYFANSWM** | **303,116,857** |

## 2023/24 CYLLIDEB REFENIW NET £303.1M

Mae sut y gwariwyd eich arian ar draws Gwasanaethau'r Cyngor yn 2023/24 i'w weld yn y siart isod:

| GWASANAETH | GWARIANT | CANRAN |
|---|---|---|
| Ysgolion | 102 miliwn | 34% |
| Gofal Cymdeithasol | 85 miliwn | 28% |
| Yr Amgylchedd a Thechnegol | 39.8 miliwn | 13% |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 15.7 miliwn | 5% |
| Gwariant Ariannu Canolog/Cyfalaf | 15.6 miliwn | 5% |
| Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor | 12.9 miliwn | 4% |
| Ardoll Tân | 8.6 miliwn | 3% |
| Addysg ac Ymyrraeth Gynnar | 7.7 miliwn | 3% |
| Tai (GF) ac Asedau | 8 miliwn | 3% |
| Yr Economi a Chynllunio | 7.3 miliwn | 2% |

## CYLLIDEBU ARIANNOL 2024/25

Mae'r amgylchedd economaidd y mae'r cyngor yn gweithredu ynddo wedi newid yn sylweddol dros y 18 mis diwethaf ac mae hyn wedi effeithio ar ragdybiaethau cynllunio cyllideb y cyngor, o ran cyllid a chostau. Mae pwysau galw hefyd wedi cynyddu'n sylweddol, yn enwedig o ran darpariaeth gofal arbenigol i blant.

Roedd y gyllideb ar gyfer 2024/25 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig yn cydnabod pwysau sylweddol o fewn Gofal Cymdeithasol a Chludiant Ysgol ac mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu o ganlyniad i hynny. Roedd nifer o risgiau economaidd yn amlwg pan gymeradwyodd aelodau y gyllideb ynghyd â phwysau o ran galw, cost a chwyddiant cyflogau. Mae effaith hynny'n cael ei adolygu'n barhaus. Bydd adroddiadau cyllideb rheolaidd i aelodau etholedig yn cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn.

Roedd y gyllideb a gymeradwywyd gan yr aelodau etholedig ar gyfer y flwyddyn 2024/25 â therfyn arian parod o £319,571,866.

Mae'r tabl isod yn dangos y cyllid a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25:

| CYLLID | 2023/24 CYLLID £ |
|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru | 232,864,570 |
| Treth y Cyngor | 86,707,296 |
| **Cyfanswm** | **319,571,866** |

# YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ymrwymo i wrando ar bobl Wrecsam. Mae cyfranogi da yn golygu bod pawb yn ein cymuned yn gwybod y gallant ymuno â'r drafodaeth am y gwasanaethau rydym yn eu dylunio a'u darparu; a gallu helpu i lunio dyfodol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Gallwch ddysgu mwy am ein hymrwymiad i gynnwys drwy ddarllen ein Strategaeth Gyfranogi.

Gall gwrando ar bobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd ein helpu i ddeall sut rydym yn perfformio fel cyngor ac rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu persbectif defnyddwyr gwasanaeth, ac i helpu i lywio sut rydym yn dylunio ac yn darparu'r gwasanaethau a ddarparwn. Adlewyrchir yr adborth o'r dangosyddion hyn yn rheolaidd ar lefel gwasanaeth i ddatblygu a gwella ein harlwy awdurdod lleol.

Oeddech chi'n gwybod?

- Yn 2023/24 fe wnaethom gynnal 45 o ymgynghoriadau trwy ein platfform ymgynghori Eich Llais.
- Bob blwyddyn rydym yn adrodd ar ganmoliaethau a chwynion, gallwch ddarllen ein hadroddiad canmoliaeth a chwynion blynyddol yma.

Fel rhan o'n proses adolygu hunanasesu flynyddol, sy'n adolygu sut rydym yn gweithio a pha mor effeithiol rydym yn defnyddio ein hadnoddau, byddwn yn ystyried persbectif defnyddwyr gwasanaeth (lle bo hynny ar gael). Mae persbectif defnyddwyr gwasanaeth yn cefnogi'r cyngor i ddeall a myfyrio ar ba mor dda yr ydym yn darparu ein gwasanaethau fel cyngor. Bydd ein Hadroddiad Hunanasesu 2023/24, sydd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024, yn nodi canfyddiadau'r adolygiad a meysydd i'w datblygu.

# BLAENORIAETHAU EIN CYNGOR

## DARPARU GWASANAETHAU STRYD EFFEITHLON A DATGARBONEIDDIO EIN HAMGYLCHEDD

### COMG CYFFREDINOL – ASESIAD CYFFREDINOL MELYN

Mae Blaenoriaeth newydd y Cyngor 'Darparu Gwasanaethau Stryd Effeithlon a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd' yn cydnabod pwysigrwydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy i les ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, ac i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r Fwrdeistref Sirol. Drwy'r flaenoriaeth hon rydym wedi canolbwyntio ar wella ein gwasanaethau amgylcheddol i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn wydn, gan ddatblygu ein Gwasanaethau Stryd i sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn gweithio tuag at gyflawni ein Cynllun Datgarboneiddio i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol a ddatganwyd gennym ym mis Medi 2019.

Ar draws ein holl wasanaethau amgylcheddol rydym wedi wynebu galw cynyddol a llai o adnoddau. Mewn ymateb fe wnaethom ganolbwyntio ar ddatblygu'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau ac yn rheoli perfformiad.

Sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn gynnar i heriau a nodwyd drwy fframwaith rheoli perfformiad cadarn a dyrannu adnoddau'n effeithlon. Yn 2023/24, fe wnaethom ddatblygu ystod o fesuryddion perfformiad a fydd yn ein galluogi i ymchwilio ymhellach i 'pa mor dda yr ydym yn gwneud.' Gan fod llawer o'r mesurau hyn yn newydd ar gyfer 2023/24, mae eleni wedi canolbwyntio ar sut rydym yn casglu data cadarn a datblygu llinellau sylfaen i olrhain gwelliant. Yn ystod blwyddyn gyntaf y flaenoriaeth hon gan y cyngor, rhoddwyd system feddalwedd rheoli asedau newydd ar waith. Mae hyn wedi dod â heriau, gyda materion pontio yn effeithio ar rai ffigurau, a oedd yn is na'r hyn y byddem yn disgwyl ei gyflawni. Bydd yr heriau hyn yn cael eu hystyried wrth gytuno ar dargedau ar gyfer 2024/25 sy'n uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy.

Mae perfformiad ailgylchu ar draws y Fwrdeistref Sirol wedi dirywio ac yn 2023/24 ni chyflawnodd ein perfformiad darged statudol Llywodraeth Cymru. Mae angen gwneud cynnydd yn 2024/25 i adolygu ein strategaeth wastraff i gyflawni targed cyfradd ailgylchu 2024/25 o 70% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru

Er gwaethaf hyn, rydym wedi gwneud cynnydd o ran gwella ein hamgylchedd, gwella ein mannau agored ac rydym yn gweld gwelliant i'n seilwaith gwyrdd ar draws ein Dinas a'n Bwrdeistref Sirol. Mabwysiadwyd ein Strategaeth Mannau Agored, gyda gwaith i barhau yn 2024/25 i ddatblygu cynllun gweithredu i gefnogi gweithrediad y strategaeth. Yn 2023/24 rydym wedi gweld ein gwaith yn cael ei wobrwyo trwy ein gwobr 'Cymru yn ei Blodau' gan arwain at fynediad i Brydain yn ei Blodau 2024/25. Cyflawnodd pob un o'n parciau sirol statws 'Meysydd Chwarae Cymru' ac rydym wedi cynyddu'r gorchudd canopi coed yn dilyn gwaith plannu coed. Rydym wedi parhau i ddatblygu prosiectau allweddol o'n Cynllun Datgarboneiddio a rhoddwyd ein Hadnodd Asesu Effaith Carbon ar waith yn 2023/24. Bydd yr adnodd yn sicrhau bod datgarboneiddio yn rhan annatod o bopeth a wnawn drwy ystyried effaith carbon fel rhan o'n penderfyniadau.

Yr her i ni yn y blynyddoedd i ddod yw blaenoriaethu ein canlyniadau mewn ymateb i effaith barhaus lleihau cyllidebau cynghorau, fel ein bod yn rheoli ein hadnoddau'n briodol tra'n parhau i gael effaith wirioneddol. O ystyried ein cyflawniadau yn 2023/24 a'r heriau rydym wedi'u hwynebu, rydym wedi graddio blaenoriaeth gyffredinol y cyngor hwn fel melyn.

Er mwyn gweld y canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt yn y flaenoriaeth hon, ewch i'n tudalen blaenoriaeth Cynllun y Cyngor Darparu Gwasanaethau Stryd Effeithlon a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd.

## PRIF GYFLAWNIADAU

### GWASANAETHAU STRYD

- Cwblhawyd y mwyafrif o archwiliadau mannau chwarae, a gwnaed gwaith cynnal a chadw ar yr holl gyfleusterau chwarae yn unol â'r amserlen gywir, er gwaethaf cael eu heffeithio'n sylweddol gan weithredu diwydiannol yn ystod y flwyddyn.

- Cefnogi gwaith i gael cyllid gan gynghorau cymuned ar gyfer meysydd chwarae a'u gwelliannau. Fe wnaethom gynorthwyo ein partneriaid a'n cymunedau gyda dylunio a chaffael, fodd bynnag nid ydym yn ariannu gwaith ein hunain.

- Rydym yn hyderus ein bod wedi casglu tipio anghyfreithlon o fewn amserlenni ar gyfer y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, mae'r canlyniad diwedd blwyddyn yn dangos gostyngiad, sy'n ganlyniad i weithredu system newydd sy'n effeithio ar gywirdeb y data a gasglwyd. Rydym wedi ymateb drwy hyfforddiant yn y system i nodi dyddiadau cau yn gywir.

- Wedi rhoi proses ar waith i nodi 'mannau problemus' ar gyfer tipio anghyfreithlon pan fydd adroddiadau lluosog yn cael eu derbyn o fewn ardal. Lle bu 3 neu fwy o adroddiadau am dipio anghyfreithlon mewn lleoliad penodol, bydd arwyddion priodol yn cael eu gosod yn yr ardal. Os derbynnir adroddiadau pellach byddwn yn targedu ymyrraeth gan gynnwys ymgyrchoedd cyfathrebu ac asesu addasrwydd gosod camera. Fodd bynnag, yr her yw lleihau tipio anghyfreithlon ar y cyfan fel bod yr angen am deledu cylch caeëdig yn cael ei leihau ac fel nad yw mannau problemus yn datblygu.

- Er gwaethaf heriau megis y gweithredu diwydiannol, fe wnaethom barhau i ddarparu gwasanaeth casglu biniau a adlewyrchir yn y ganran isel o gwynion am gasgliadau a fethwyd a dderbyniwyd eleni. Roedd canran wythnosol cyfartalog y biniau yr adroddwyd eu bod wedi'u methu yn 2023/24 yn is na'r targed o 0.21%.

### PRIFFYRDD A MANNAU AGORED

- Cwblhawyd 95.86% o archwiliadau priffyrdd a drefnwyd yn unol â pholisi. Cyflawnwyd ein targed i sefydlu llinell sylfaen gan sicrhau ein bod yn gosod targedau dyheadol i wella.

- Cwblhawyd hyfforddiant i sicrhau bod gwaith atgyweirio priffyrdd adweithiol yn cael ei gynnwys yn gywir ar y system rheoli asedau newydd.

- Gwnaethom gasglu canran y tyllau lôn mwyaf difrifol a atgyweiriwyd yn unol â pholisi yn ystod 2023/24 a sefydlu llinell sylfaen o 57.74% i wella ohoni.

- Fe wnaethom arolygu 86.5% o barciau gwledig / mannau agored yn unol â pholisi, a gweithredu yn unol â hynny. Mae hyn er gwaethaf gweithredu diwydiannol a effeithiodd ar adnoddau i gynnal arolygiadau.
- Cwblhawyd yr Arolwg Awyr Las sydd wedi sefydlu llinell sylfaen o 18.6% o orchudd canopi coed i wella o 2024/25.
- Ym mis Rhagfyr 2023, cymeradwyodd ein Bwrdd Gweithredol ein Strategaeth Mannau Agored, ac yn dilyn hyn byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredu mannau agored sy'n nodi defnydd priodol a rheolaeth o bob man agored.

## DATGARBONEIDDIO

Yn dilyn datganiad Llywodraeth Cymru o Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru, cyhoeddwyd yr uchelgais i holl sefydliadau sector cyhoeddus Cymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Yn 2019, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol. Ers y datganiad hwnnw, rydym yn wedi datblygu ein Cynllun Datgarboneiddio, sy'n nodi ein map ffordd ar gyfer datgarboneiddio gweithrediadau ein cyngor a diogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol. Mae uchafbwyntiau ein Cynllun Datgarboneiddio yn cynnwys:

- Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni Allyriadau Carbon Sero Net erbyn 2030 drwy weithredu'r Cynllun Datgarboneiddio (2021-2030). Rydym yn ystyried allyriadau carbon a chyfleoedd ar gyfer dal a storio carbon (dal, tynnu a storio carbon o'r atmosffer) yn ein holl benderfyniadau drwy ein Hasesiadau Effaith Carbon.
- Wrth ystyried ein cynnydd o ran lleihau ein hallyriadau carbon yn erbyn llinell sylfaen 2019 ar gyfer ein mesurau dangosol, rydym yn cyflawni taflwybr ar i lawr yn gyffredinol.
- Mabwysiadu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd a fydd yn helpu i lywio ein penderfyniadau wrth reoli perygl llifogydd a rhaglenni cynnal a chadw. Rydym yn casglu data ar ein rhwydwaith draenio a fydd yn helpu i lywio'r ffordd rydym yn cyflawni ein rhaglen ddraenio gylchol.
- Cynyddwyd ein Cymunedau Carbon Isel i 6, uwchlaw ein targed o'r 5 cychwynnol. Yn 2024/25 byddwn yn cysylltu â chynghorwyr i sicrhau bod pob cymuned yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn lleihau carbon yn eu hardaloedd.
- Fe wnaethom gynnal archwiliad o orchudd canopi coed Wrecsam ar gyfer 2023 sydd wedi gweld cynnydd amlwg yn y gorchudd canopi ers yr archwiliad diwethaf a gynhaliwyd cyn Covid-19. Rydym wedi bod yn llwyddiannus iawn yn cynyddu nifer y coed yr ydym yn eu plannu, sy'n cefnogi gwrthbwyso ein hallyriadau carbon.
- Mae ymrwymiad i fapio, adolygu a diweddaru'r holl bolisïau, protocolau a chynlluniau presennol yn unol â'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Mannau Agored. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau yn dilyn mabwysiadu'r strategaeth ym mis Rhagfyr, gydag ailsefydlu Fforwm Mynediad Lleol Wrecsam.
- Rydym wedi recriwtio i rôl Swyddog Cronfa Ffyniant Gyffredin sy'n canolbwyntio ar dyfu cymunedol – gan weithio gyda'r cymunedau carbon isel i nodi ardaloedd addas, datblygu cynlluniau a gweithredu ardaloedd tyfu

cymunedol, ynghyd â'u cynlluniau cynnal a chadw ar gyfer y dyfodol.

- Cefnogir holl aelwydydd yn Wrecsam i ymgysylltu er mwyn gweithio tuag at ddod yn ddi-wastraff, trwy gyfuniad o leihau gwastraff, ail-ddefnyddio ac ailgylchu.

## CLUDIANT, SYMUDEDD AC ADEILADAU

- Wedi cytuno ar ein contract gwefru cerbydau trydan a gweithio gyda phartner tymor hir newydd, yn bwriadu darparu safleoedd gwefru cerbydau ar draws y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys 48 o safleoedd bach a 2 ganolbwynt yng nghanol y ddinas.
- Mae polisi teithio'r Gweithlu ac Aelodau Etholedig wedi'i fabwysiadu ac mae adroddiad opsiynau pontio fflyd wedi'i gyflwyno i'r aelodau i'w ystyried. Mae canlyniadau arolwg teithio staff a phapur crynodeb yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.
- Mae gennym Gefnogwyr Gwyrdd ar draws y cyngor, yn eistedd mewn grwpiau thema penodol, ac mae un ohonynt yn edrych ar deithio staff. Mae modiwl eDdysgu 'Gyrru Eco ac Ystyriol' ar gyfer y gweithlu yn cael ei ddatblygu i'w lansio yn 2024/25.
- Eleni fe wnaethom benodi Uwch Arweinydd Cludiant a fydd yn helpu i gyflawni ein huchelgeisiau Teithio Llesol i wella ein rhwydwaith teithio llesol ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae hyn yn uchelgais allweddol gan ein partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru.
- Penodwyd Arweinydd Tai Gwag a Datgarboneiddio a Swyddog Effeithlonrwydd Ynni (a ariennir gan Lywodraeth Cymru am 12 mis). Bydd y ddwy swydd yn ganolog i weithio tuag at ofynion newydd Safon Ansawdd Tai Cymru 2023, lle mae'n rhaid i Landlordiaid gynnal Asesiad Stoc Gyfan a chynhyrchu Llwybrau Ynni Targed ar gyfer eu cartrefi.
- Cwblhawyd adolygiad o asedau tir ar gyfer ymyriadau Isadeiledd Gwyrdd (IG) eleni. Mae gweithgor wedi'i sefydlu ac un o gamau gweithredu'r grŵp yw dechrau archwiliad o ymyriadau IG i gynnwys ysgolion ag ymyriadau cefnogi natur a thyfu.

## CAFFAEL

- Mae cydweithwyr caffael wedi bod yn gweithio ar nifer o weithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf i gyflawni caffael mwy cyfrifol a chynaliadwy. Er mwyn lleihau'r galw, mae modiwlau e-ddysgu'r gweithlu'n cael eu datblygu ar ganllawiau ar gyfer lleihau'r hyn a brynwn yn ogystal â hyfforddiant economi gylchol (sy'n cynnwys rhannu, prydlesu, ailddefnyddio, atgyweirio, adnewyddu ac ailgylchu deunyddiau a chynhyrchion presennol cyn belled â phosibl). Mae adolygiad wedi'i gynnal o'r gofynion i'w cynnwys mewn tendrau gan gynnwys; Cynllun Lleihau Carbon (CRP) a gwerth cymdeithasol.
- Eleni, cynhaliom beilot Gofal Cymdeithasol o'r offeryn Cynllun Lleihau Carbon i gyflenwyr. Y cynllun fydd dechrau datblygu a chytuno ar fethodoleg gyson ar gyfer cyfrifo allyriadau carbon er mwyn galluogi'r cyngor i 'berchen' ar ganran o garbon cyflenwr sy'n gyfartal â'r gyfran o drosiant y cwmni yr ydym yn ei gynrychioli.

## HERIAU A SYMUD YMLAEN

- Rydym wedi cyflawni rhywfaint o gynnydd da yn ystod 2023/24, ond mae meysydd lle nad oedd perfformiad yn unol â'r disgwyl ac mae heriau wedi effeithio ar y cynnydd a wnaed. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae perfformiad wedi bod yn heriol mewn rhai meysydd lle gwnaethom drosglwyddo i system rheoli asedau newydd, gan effeithio ar gywirdeb ein data. Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i bawb y mae'n ofynnol iddynt ddefnyddio'r system i sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth yn gywir ac yn amserol. Bydd cadernid y data yn cael ei ystyried a'i adlewyrchu wrth osod targedau ar gyfer 2024/25.

- Mae cyllid ac adnoddau yn her wrth geisio sicrhau bod ein canlyniadau Gwasanaethau Stryd yn cael eu cyflawni. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio'n adweithiol ac mae hyn yn annhebygol o newid oni bai ein bod yn derbyn mwy o arian i ddarparu ein gwasanaethau. Rydym yn gwella o ran clirio tipio anghyfreithlon, ac atgyweirio diffygion arwynebau lonydd difrifol o fewn yr amserlen; fodd bynnag, mae angen ffocws o hyd yn y meysydd hyn.

- Ailgylchu yn Wrecsam fydd un o'n meysydd ffocws allweddol yn 2024/25 gan fod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r gyfradd ailgylchu i 70%. Bydd strategaeth wastraff yn cael ei datblygu i gynnwys ffocws ar amrywiaeth o wasanaethau gwastraff a fydd yn gwella ac yn cynyddu ein cyfradd ailgylchu.

- Roedd cynnydd yn nifer yr achosion o faw cŵn a sbwriel a nodwyd o gymharu â 2022/23. Efallai bod hyn oherwydd ymarferoldeb adrodd gwell ar gael ynghyd â mwy o ymwybyddiaeth o sut i adrodd am faterion.

- Effeithiodd gweithredu diwydiannol yn ystod y flwyddyn ar ein gallu i gasglu sbwriel tra'n sicrhau y cyflawnir swyddogaethau statudol eraill megis casgliadau gwastraff domestig. Wrth symud i 2024/25 byddwn yn cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu newid ymddygiad i helpu i leihau sbwriel a baw cŵn.

- Ym mis Rhagfyr 2023, cafodd y Strategaeth Mannau Agored ei chymeradwyo a'i mabwysiadu gan y Bwrdd Gweithredol. Yn 2024/25, bydd cynllun gweithredu yn cael ei greu i gefnogi amcanion y strategaeth.

- Rydym wedi wynebu heriau wrth weithredu amserlenni deallus newydd ar gyfer cynnal a chadw systemau draenio. Mae gwaith yn y maes hwn yn dal i gael ei ddatblygu. Mae heriau gyda'r tywydd gwlyb (Gogledd Cymru oedd â'r cyfnod gwlypaf o 9 mis yn dod i ben ym mis Mawrth, sef yr 2il wlypaf o unrhyw gyfnod o 9 mis a gofnodwyd yn y DU) wedi golygu bod y gwaith i adeiladu'r amserlenni deallus wedi cael eu tarfu. Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yn hyn rydym wedi gweld gostyngiad mewn llifogydd ar draws y Fwrdeistref Sirol, fodd bynnag mae hyn yn bennaf oherwydd ein bod yn atgyweirio ac yn cywiro unrhyw faterion a nodwyd ar safleoedd.

- Er mwyn parhau i gyflawni llwybr ar i lawr yn ein cynhyrchiad/allyriadau carbon, y brif her wrth symud ymlaen fydd nodi'r cyllid angenrheidiol i barhau i ddatgarboneiddio ein gweithgareddau fel cyngor ac i wrthbwyso ein carbon drwy gamau gweithredu fel cynhyrchu ein hynni a phlannu ein coed ein hunain.

- Mae nifer o fesurau canlyniadau sy'n cefnogi ein Cynllun Datgarboneiddio yn cael eu hadrodd yn flynyddol yn ôl-weithredol, ac wrth symud ymlaen efallai y bydd angen i ni ystyried a yw'r ffigurau orau yn y flaenoriaeth hon yn y fformat presennol, neu a ddylem fod yn casglu data gwahanol a allai fod yn fwy buddiol, ac yn haws i'w fesur yn amlach, gan weithio'n rhanbarthol gyda phartneriaid yn y tymor hwy.

## EIN MESURAU CANLYNIADAU

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr arolygon o feysydd chwarae a gwblhawyd yn brydlon gan gymryd y camau gweithredu priodol. | Cynnal | 100% | 100% | 89% MELYN | Na |
| Gostyngiad yn nifer yr adroddiadau swyddogol am faw cŵn a sbwriel. | Gwella (gostyngiad) | Baw Cŵn - 277<br>Taflu Sbwriel – 48 | Gostyngiad mewn adroddiadau <325 | 483 OREN | Na |
| Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon y cafwyd gwybod amdanynt a gafodd eu clirio o fewn 5 niwrnod gwaith. | Cynnal | 97% | 97% | 79% OREN | Na |
| Canran wythnosol gyfartalog yr achosion o fethu biniau y cafwyd gwybod amdanynt | Cynnal | 0.21% | 0.21% | 0.06% (rhagorwyd ar y targed) GWYRDD | Ydy |
| Canran yr arolygon priffyrdd a gwblhawyd yn unol â pholisi | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Llinell sylfaen 95.86% GWYRDD | Ydy |
| Canran y tyllau mwyaf difrifol a atgyweiriwyd yn unol â pholisi | Cynnal | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Llinell sylfaen 57.74% GWYRDD | Ydy |
| Canran yr arolygon o barciau gwledig / mannau agored a gwblhawyd yn unol â pholisi gan gymryd y camau gweithredu priodol. | Gwella (cynnydd) | 90% | 95% | 86.5% MELYN | Na |

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y systemau draenio priffyrdd a arolygwyd yn unol â'r amserlen gytunedig | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Llinell sylfaen ar y gweill MELYN | Na |
| Gostyngiad yn yr allyriadau carbon cyffredinol neu ar y trywydd iawn i sicrhau gostyngiad yn yr allyriadau carbon cyffredinol | Gwella (gostyngiad) | Mesur Newydd Sefydlu llinell sylfaen | Gostyngiad o 10% mewn tCO2e | Llinell sylfaen -32% (adroddwyd yn ôl-weithredol) GWYRDD | Ydy |
| Canran yr adroddiadau Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor sy'n cynnwys asesiad o effaith carbon | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Llinell sylfaen ar y gweill MELYN | Na |
| Nifer y Cynlluniau Lleihau Carbon Cymunedau Cynlluniau Lleihau Carbon (CRP) | Gwella (cynnydd) | 2021/22 0 | 5 | 6 GWYRDD | Ydy |
| Gostyngiad yn yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â fflyd trafnidiaeth CBSW | Gwella (gostyngiad) | 2021/22 2474 (tCO2e) Fflyd/ Fflyd Lwyd gyda'i gilydd | Gostyngiad o 5% mewn tCO2e | 3214 (cynnydd o 25%) COCH | Na |
| Gostyngiad yn Allyriadau Fflyd Lwyd CBSW | Gwella (gostyngiad) | 464 (tCO2e) | Gostyngiad o 5% mewn tCO2e | Mesur angen ei ddatblygu | Ddim yn cael ei adrodd |
| Canran y llwybrau teithio llesol i'r dyfodol a grëwyd (Map Rhwydwaith Teithio Llesol 2022) | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Llinell sylfaen ar y gweill MELYN | Na |
| Gostyngiad yn y carbon sy'n gysylltiedig ag ynni drwy allyriadau adeiladau CBSW neu ar y trywydd iawn i sicrhau gostyngiad mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag ynni (gan gynnwys tynnu carbon o brosesau cynhyrchu) | Gwella (gostyngiad) | 2021/22 9,263 (tCO2e) | Gostyngiad o 10% mewn tCO2e | Llinell sylfaen -12% (adroddwyd yn ôl-weithredol) GWYRDD | Ydy |

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y busnesau bach, canolig a mawr yn ein cadwyn gyflenwi gyda Chynlluniau Gostwng Carbon | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | 5% | Mesur angen ei ddatblygu | Ddim yn cael ei adrodd |
| Gostyngiad yn yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'n cadwyn gyflenwi | Gwella (gostyngiad) | 28,894 (tCO2e) | Gostyngiad o 10% ar y llinell sylfaen | Data ar gael Gorffennaf 24 | Ddim yn cael ei adrodd |
| Gorchudd Canopi Coed | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Llinell sylfaen 18.6% GWYRDD | Ydy |
| Metrau sgwâr o fannau agored a reolir er budd bioamrywiaeth | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Llinell sylfaen ar y gweill MELYN | Na |
| Gostyngiad mewn allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gwastraff tirlenwi | Gwella (gostyngiad) | 2021/22 594 tunnell= 265 tCO2e | 239 | 231.69 GWYRDD | Ydy |
| Canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. | Gwella (cynnydd) | 66.19% | 65% (targed statudol) | 63.8% COCH | Na |

[1] COMG yn seiliedig ar gynnydd a wnaed tuag at y targed diwedd blwyddyn. Gweler tudalen 8 am ddiffiniadau.

## GOSOD Y CYD-DESTUN

Er mwyn helpu i ddeall y darlun cyfredol ar gyfer pob blaenoriaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam rydym wedi cynnwys set o ddangosyddion cyd-destunol. Tueddiadau a materion lleol a chenedlaethol yw'r rhain y mae ein canlyniadau'n cyfrannu atynt. Mae'r rhain yn ddangosyddion sy'n gofyn am gydweithrediad ac integreiddiad ein partneriaid, sefydliadau allanol a chymunedau i wella, fodd bynnag disgwylir y bydd blaenoriaethau'r cyngor a'r gwaith sy'n sail iddynt yn effeithio ar y dangosyddion yn y tymor hir.

| DANGOSYDD CYD-DESTUNOL | BETH YW PERFFORMIAD DA? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL | DIWEDDARIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|
| Swm y gwastraff a gynhyrchir nad yw'n cael ei ailgylchu, fesul person yn Wrecsam | Gwella (gostyngiad) | 2021/22 ffigwr Cymru gyfan 191kg y person | Disgwyl diweddariad nesaf – Data Cymru ffigwr Cymru Gyfan |
| Canran y teithiau ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus (i'r gwaith) – Cymru Gyfan | Gwella (cynnydd) | ffigwr Cymru gyfan 2020 83% yn teithio i'r gwaith mewn car, cerddodd 9%. Gweddill bws, trên neu feic | ffigwr Cymru gyfan 2021 82% yn teithio i'r gwaith mewn car, cerddodd 9%. Gweddill bws, trên neu feic |
| Lefel gyfartalog flynyddol amlygiad i lygredd aer nitrogen deuocsid (NO2) (a geir mewn ardaloedd trefol a ger ffyrdd prysur, gan adlewyrchu cyfraniad traffig at ansawdd aer gwael) | Gwella (gostyngiad) | 2020 6ug/m3 Wrecsam 7ug/m3 Cymru | 2021<br>7ug/m3 Wrecsam<br>7ug/m3 Cymru |
| Nifer y prosiectau cynhyrchu ynni carbon isel | Gwella (gostyngiad) | 2020<br>5174 Wrecsam<br>84,479 Cymru 1af o 6 sir Gogledd Cymru | 2021<br>5381 Wrecsam<br>95,047 Cymru<br>1af o 6 sir Gogledd Cymru |
| Canran y rhwydwaith ffyrdd a gynhelir gan Awdurdod Lleol | - | 2021/22 97.4% Wrecsam 95.1% Cymru | 2022/23<br>97.4% Wrecsam<br>95.1% Cymru |
| Canran y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer ffyrdd a thrafnidiaeth a neilltuwyd i briffyrdd a ffyrdd | - | 2021/22<br>63.9% Wrecsam<br>61.9% Cymru | 2022/23<br>62.3% Wrecsam<br>60.5% Cymru |
| Cyfanswm nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd fesul 1000 o boblogaeth Wrecsam | - | 2021/22<br>Wrecsam 0.9<br>Cymru 6.7 | 2022/23<br>Wrecsam 3.6<br>Cymru 6.4 |

# DATBLYGU'R ECONOMI

## COMG CYFFREDINOL – ASESIAD CYFFREDINOL MELYN

Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnwys cefn gwlad deniadol, tirweddau amrywiol ac aneddiadau gwahanol sy'n amrywio o ardaloedd trefol mawr Canol Dinas Wrecsam ac Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam i ardaloedd gwledig Glyn Ceiriog yn y de-orllewin, Maelor yn y de-ddwyrain a'r hen bentrefi glofaol i'r de ac i'r gorllewin o dref Wrecsam. Mae Wrecsam yn dominyddu rhan ogleddol y Fwrdeistref Sirol a thros y degawd diwethaf mae wedi bod yn un o'r canolfannau manwerthu sy'n tyfu gyflymaf yn y DU.

Fel dinas mwyaf newydd Cymru, nid yw Bwrdeistref Sirol Wrecsam erioed wedi bod mewn sefyllfa well i adeiladu ar ein llwyddiannau diweddar a datblygu economi gryf a llewyrchus: gan ddarparu cyfoeth, cyfleoedd, cymdogaethau diogel ac iach a chefnogi buddsoddiad mewnol hirdymor parhaus ar gyfer isadeiledd a gwasanaethau allweddol. Wrth gymharu data ystadegol ar gyfer 2023 â'r flwyddyn flaenorol, mae'r Fwrdeistref Sirol wedi gweld:

- Twf o 7.79% yn nifer y mentrau sy'n weithredol yn yr ardal, sy'n llawer uwch na'r gyfradd twf ar gyfer y DU gyfan, a Chymru, a welodd ostyngiad;
- Twf cyflogaeth o 2.24%, gyda hyn eto'n uwch na'r gyfradd twf ar gyfer y DU gyfan a Chymru;
- Twf mewn trosiant o 8.10%, sy'n uwch na'r gyfradd twf ar gyfer y DU yn gyffredinol, ond ychydig y tu ôl i gyfradd twf Cymru;
- Cyfradd twf o 0.1% yn nifer yr unigolion sy'n hunangyflogedig, sy'n cyfateb i gyfradd y DU gyfan, ac sydd ar y blaen i Gymru'n gyffredinol, a welodd ostyngiad yn niferoedd hunangyflogaeth. Mae'r DU a Chymru wedi gweld gostyngiad mewn hunangyflogaeth dros gyfnod o ddeng mlynedd, ond mae Wrecsam wedi gweld cynnydd o 0.2%; ac
- Yn seiliedig ar ddata 2017 (er mwyn gallu darparu darlun 5 mlynedd gan ddefnyddio data cyhoeddedig), mae gan fusnesau yn y Fwrdeistref Sirol gyfradd oroesi well o flwyddyn i flwyddyn i raddau helaeth o gymharu â Chymru a'r DU yn gyffredinol.

Mae proffil Wrecsam wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i feddiannu CPD Wrecsam; gyda'r diddordeb yn y cyfryngau sydd wedi dilyn a'r gyfres ddogfen, yn ennyn diddordeb byd-eang. Mae hyn, ynghyd â Wrecsam hefyd yn ennill statws Dinas, yn hyrwyddo apêl y Fwrdeistref Sirol fel lleoliad busnes.

Mae ymagwedd Wrecsam wedi'i chydnabod gan Lywodraeth Cymru, a oedd, trwy wahoddiad, yn darparu llwyfan i gyfathrebu â'r diwydiant technoleg ar gyfer datblygu Dinas Glyfar. Mae'r cyngor bellach yn cael ei ystyried yn flaengar ac yn awdurdod lleol yng Nghymru y gellir mynd ato i helpu a chefnogi eraill sy'n dymuno addasu syniadau tebyg. Cynhaliodd Wrecsam hefyd y Gynhadledd Trefi SMART gyntaf erioed yng Nghymru, ym mis Mawrth 2023.

Bydd pedwar prosiect peilot Tref Glyfar yn cychwyn ym mis Mai gyda chefnogaeth Prif Swyddogion Cyngor Wrecsam.

Gyda monitro nifer yr ymwelwyr i ddeall yr effaith y mae digwyddiadau yn ei chael ar draws yr ystod o fusnesau yn y ddinas, gallwn beintio darlun a helpu

i gynllunio digwyddiadau yn y dyfodol i gael yr effaith fwyaf posibl. Mae sgrin y llyfrgell wedi cael effaith gadarnhaol o ran hyrwyddo digwyddiadau, ac mae'r llyfrgell wedi gweld cynnydd yn y niferoedd i rai digwyddiadau a gynhaliwyd. Mae'r ap VZTA yn ychwanegiad newydd lle gall busnesau hyrwyddo eu hunain ar lwyfan digidol i gynulleidfa ehangach.

Mae Tŷ Pawb yn parhau i gynnig profiad cryf ac unigryw i ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd.

Roedd cyfnod y Nadolig yn boblogaidd gydag agoriadau gyda'r nos ac amserlen brysur o ddigwyddiadau. Mae Tŷ Pawb yn parhau i ddenu arddangosfeydd a gydnabyddir yn genedlaethol, gan gofnodi ei bresenoldeb prysuraf erioed ar gyfer Print International a chynnal y Gynhadledd Trefi SMART cyntaf erioed yng Nghymru ac yn wir y DU. Mae nosweithiau comedi yn cael eu cynnal yn fisol bellach oherwydd y galw mawr ac mae elfen theatr ei rhaglen yn parhau i dyfu. Mae gweithgaredd partneriaeth gyda Chlwb Pêl-droed Wrecsam wedi gweld arddangosiad portread Rob McElhenney a ffilmio 'Welcome to Wrexham', sy'n gwella ei broffil a'i arwyddocâd rhyngwladol ymhellach.

Ein safleoedd treftadaeth yw ein prif ased twristiaeth ar hyn o bryd. Mae'r Safle Treftadaeth y Byd sy'n cynnwys Dyfrbont Pontcysyllte yn un o bedwar safle o'r fath yng Nghymru - tri ohonynt yng Ngogledd Cymru. Mae ganddo apêl genedlaethol a rhyngwladol. Mae Castell y Waun (sydd hefyd yn eistedd yng nghoridor STB) a Phlas Erddig yn atyniadau allweddol i'r ardal ac, fel eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mae ganddynt frand cryf. Cefnogir yr asedau sylfaenol hyn gan dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog gan gynnwys Chwarel Y Mwynglawdd, Gwaith Haearn y Bers, Canolfan Dreftadaeth Brymbo, ac Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae gennym bartneriaethau cryf, yn enwedig Partneriaeth Twristiaeth 'Dyma Wrecsam' sy'n fenter gadarn a arweinir gan y sector preifat sy'n cynnwys gweithredwyr economi ymwelwyr allweddol. Fodd bynnag, mae gennym bartneriaethau cryf eraill – Grŵp Rheoli Ymwelwyr Safle Treftadaeth y Byd – a pherthynas waith â siroedd cyfagos/ Swyddogion Rheoli Cyrchfan, Croeso Cymru, Partneriaeth y Waun a Dyffryn Ceiriog, a'r Grŵp Arwain Dinesig. Mae ein hymagwedd partneriaeth yn cynnwys darparu gweithgaredd hyrwyddo ar y cyd yn arbennig yr ymgyrch 'Dyma Wrecsam' (gwefan ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ategol) ac ymgyrch Gogledd-ddwyrain Cymru (ymgyrch marchnata twristiaeth gwe mewn partneriaeth â Sir Ddinbych a Sir y Fflint).

Yn ogystal â gweithio'n agos gydag adrannau mewnol a darparwyr cymorth allanol o safbwynt atgyfeirio cleientiaid, mae llawer o adrannau (fel Cymunedau am Waith, Twristiaeth a Thîm Rheoli Canol y Ddinas) a phartneriaid cymorth allanol (fel Busnes Cymru) yn gofyn am gymorth yn rheolaidd gan y Tîm Busnes a Buddsoddi.

Dros y pedair blynedd nesaf rydym yn wynebu'r her o wneud mwy gyda llai o ganlyniad i heriau cyllidebol cynghorau, ochr yn ochr â holl Awdurdodau Lleol Cymru. Fodd bynnag, mae ein cynnydd eleni wedi bod yn dda iawn o ystyried y pwysau ar y gwasanaeth a'r gyllideb y mae'r adran wedi bod yn gweithio oddi tanynt. Mae pwysau ar gyllidebau a gwasanaethau'r Cyngor wedi golygu nad ydym yn cyflawni rhai o'n targedau eleni yn union.

Er mwyn gweld y canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt yn y flaenoriaeth hon, ymwelwch â'n tudalen flaenoriaeth Cynllun y Cyngor; Datblygu ein Heconomi.

## PRIF GYFLAWNIADAU

### Y GALLU I GREU'R AMODAU SYDD EU HANGEN I GEFNOGI DATBLYGIAD MASNACHOL AC AR GYFER BUSNESAU PRESENNOL I DYFU.

Mae'r Tîm Busnes a Buddsoddi yn ymwybodol o[2] :

- Buddsoddiadau busnes gwerth cyfanswm o £104,520,000 yn ystod 2023, gyda 351 o swyddi'n cael eu creu.
- Buddsoddiadau arfaethedig gwerth cyfanswm o £670,130,000, a rhagwelir y bydd 1,703 o swyddi'n cael eu creu.

### CYFRADDAU CYFLOGAETH A DIOGELWCH SWYDDI

- Mae Cofrestr Busnes Rhyngadrannol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cynnwys amcangyfrifon dros dro, yn nodi 11,485 o fentrau sy'n weithredol yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 7.79% yn nifer y mentrau yn yr ardal o gymharu â ffigurau diwygiedig ar gyfer 2022, gyda'r gyfradd twf hon yn uwch na'r DU gyfan a Chymru, a welodd ostyngiad yn gyffredinol.
- Mae Wrecsam yn perfformio'n sylweddol well na'r DU a Chymru o ran twf mentrau a chyflogaeth ond mae ychydig ar ei hôl hi (0.35%) â ffigwr Cymru o ran twf mewn trosiant. Er bod hyn yn dal i ddangos twf blynyddol cryf (8.10%), mae'r cymysgedd o sectorau yn ardal Wrecsam a'u llwyddiant cymharol yn yr amgylchedd economaidd presennol, yn debygol o esbonio'r gwahaniaeth bychan mewn trosiant o gymharu â Chymru yn gyffredinol.

### CANOL DINAS AMRYWIOL AC ENTREPRENEURAIDD

- Rydym wedi llwyddo i gynyddu nifer yr adeiladau gwag / nas defnyddir yn ddigonol sy'n cael eu hailddefnyddio o fewn 3 blynedd i ymyrraeth y cyngor
- Mae gweledigaeth Trefi SMART wedi'i chyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain ac Aelodau Arweiniol y cyngor fel ystyriaeth ar gyfer cefnogi gwelliannau gwasanaeth posibl ac arbedion cost.  O ganlyniad uniongyrchol i waith arloesol a phroffil uchel Swyddog Datblygu Dinas SMART a chynnydd y prosiect hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £72,000 i'r cyngor i ehangu'r rhwydwaith synwyryddion ac i gynnal cynlluniau peilot ychwanegol i ddeall lle mae hyn. gall technoleg  wneud arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cost o fewn gwasanaethau'r cyngor.

### CANOL DINAS AMRYWIOL AC ENTREPRENEURAIDD GYDA PHROFFIL UCHEL FEL CYRCHFAN YMWELWYR SYLWEDDOL YNG NGOGLEDD CYMRU

- Llwyddasom i sicrhau £22.7 miliwn gan Lywodraeth y DU fel rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF).
- Mae Ap VZTA wedi cynyddu ymgysylltiad busnes yn sylweddol fel rhan o brosiect Dinasoedd Digidol Trefi SMART.  Ers ei lansio, mae'r ap wedi'i lawrlwytho 3,354 o weithiau ac mae bellach yn gartref i dros 60 o fusnesau gyda chyfanswm o dros 6000 o ymweliadau â'r tudalennau busnesau lleol.
- Mae cynnydd cadarn wedi'i wneud gyda phrosiectau fel rhan o'r Cynllun Creu Lleoedd newydd.

[2] Nid yw ac ni ddylid dehongli'r ddau ddatganiad data hyn fel dangosyddion perfformiad ac nid yw'r wybodaeth wedi'i gwirio, ond mae ar gael i'r cyhoedd.

## HERIAU A SYMUD YMLAEN

### CYFLWYNO BARGEN TWF GOGLEDD CYMRU A'R GALLU I GREU'R AMODAU SYDD EU HANGEN I GEFNOGI DATBLYGIAD MASNACHOL AC I FUSNESAU PRESENNOL DYFU.

- Mae prosiect Porth Wrecsam oddi ar y trywydd iawn oherwydd bod cynnydd y Llywodraeth Ganolog yn araf iawn o ran symud ymlaen, hefyd mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal datblygiadau/gwelliannau ffyrdd yn rhwystr i symud ymlaen. Mae'n bosibl iawn y bydd cynnydd yn cael ei lesteirio ymhellach gan fod hon yn flwyddyn etholiad, a all unwaith eto dynnu sylw oddi ar y mater.

### CYFRADDAU CYFLOGAETH A DIOGELWCH SWYDDI

- Nid ydym wedi gallu cynnal nifer y canlyniadau swyddi ar draws y Fwrdeistref Sirol (Cymunedau am Waith a Mwy) gan y derbynnir bod targedau wedi'u gosod yn rhy uchel ar gyfer eleni. Yn ogystal, mae'r gostyngiad yn ein cyllid eleni (£300k) a'r broses ddiswyddo fewnol ddilynol y bu'n rhaid i ni ei gweithredu o ganlyniad, wedi effeithio ar barhad ond nid ar ymrwymiad a gwaith caled y tîm.

### EIN PROFFIL FEL CYRCHFAN YMWELWYR SYLWEDDOL YNG NGOGLEDD CYMRU

- Due to the regeneration of key assets such as the museum and indoor markets, footfall counts have been impacted by the in-year closure of these sites. Footfall data is therefore presented as partial year figures to inform future target setting, once the assets re-open. In the case of Tŷ Pawb, a failure in the counting technology produced significant under-counting in Q2 and Q3. Following the replacement of the failed equipment, an accurate count for Q4 was recorded, which is very much in line with expected targets and consistent with the figure recorded in Q1.

### CANOL DINAS AMRYWIOL AC ENTREPRENEURAIDD

- Rydym wedi gwneud yn dda wrth gynnal gwerth ymyriadau gan y cyngor i gefnogi ail-bwrpasu adeiladau gwag / adeiladau canol y ddinas nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol eleni, fodd bynnag bydd yn rhaid i ni ystyried gostwng ein targedau wrth symud ymlaen gan y bydd llai o arian grant ar gael o 2024/25. Nid yw cyflawni Uwchgynllun Porth Wrecsam wedi'i gyflawni eto, mae holl gamau gweithredu'r cyngor i gyflawni'r targed hwn wedi'u cwblhau ond mae cynnydd pellach bellach yn dibynnu ar Glwb Pêl-droed Wrecsam. Rydym yn hyderus y bydd y cynllun yn symud ymlaen i gyflawniad llawn.

## EIN MESURAU CANLYNIADAU

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiad i gefnogi'r economi, wedi'i sicrhau gan CBSW drwy bortffolio'r Fargen Dwf | Cam Gweithredu | Dyraniad wedi'i glustnodi o £13.79m | Cyflwyno Achos Busnes Amlinellol | Yn mynd rhagddo MELYN | Na |
| Gwerth Economaidd-Gymdeithasol (swyddi/cyllid) Canlyniadau Buddsoddi Cymwys a gefnogir gan y Gwasanaeth Cymorth i Fusnesau ar draws y Fwrdeistref Sirol. | Cam Gweithredu | Mesur Newydd | Sefydlu cwestiynau arolwg | Yn mynd rhagddo GWYRDD | Ydy |
| Nifer y busnesau ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n cael mynediad i Gymorth y Cyngor. | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | 503 Llinell sylfaen wedi'i sefydlu GWYRDD | Ydy |
| Cyfradd Eiddo Gwag yng Nghanol y Ddinas | Gwella (gostyngiad) | 2021/22 Wrecsam: 18.90% Y DU: 18.9% 2023 Y DU: 13.9%. | 15% | 14.64% GWYRDD | Ydy |
| Nifer yr adeiladau gwag / nad ydynt yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn a gaiff eu defnyddio eto o fewn 3 blynedd i ymyrraeth y cyngor | Gwella (cynnydd) | 28 (dros 3 blynedd, 2020-2023 | 2 | 11 GWYRDD | Ydy |
| Nifer yr unigolion (cyflogwyr / gwirfoddolwyr) sydd wedi'u hachredu gan Gynllun Llysgenhadon Wrecsam i gefnogi'r sector twristiaeth a lletygarwch ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | 1000 | 274 OREN | Na |

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y canlyniadau swyddi ar draws y Fwrdeistref Sirol – Cymunedau am Waith a Mwy | Cynnal | Mesur Newydd | 213 (Targedau Llywodraeth Cymru wedi'u gosod rhy uchel oherwydd gostyngiad mewn cyllid) | 152 OREN (cynnal mewn perthynas â chyllid) | Ydy |

[1] COMG yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed tuag at y targed diwedd blwyddyn. Gwelertudalen 8 am ddiffiniadau.

## GOSOD Y CYD-DESTUN

Er mwyn helpu i ddeall y darlun cyfredol ar gyfer pob blaenoriaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam rydym wedi cynnwys set o ddangosyddion cyd-destunol. Tueddiadau a materion lleol a chenedlaethol yw'r rhain y mae ein canlyniadau'n cyfrannu atynt. Mae'r rhain yn ddangosyddion sy'n gofyn am gydweithrediad ac integreiddiad ein partneriaid, sefydliadau allanol a chymunedau i wella, fodd bynnag disgwylir y bydd blaenoriaethau'r cyngor a'r gwaith sy'n sail iddynt yn effeithio ar y dangosyddion yn y tymor hir.

| DANGOSYDD CYD-DESTUNOL | BETH YW PERFFORMIAD DA? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL | DIWEDDARIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|
| Dangosydd sgôr iechyd y stryd fawr. | Gwella (cynnydd) | 2022 Wedi'i raddio fel 267 allan o 1000 o ganolfannau manwerthu | Dim diweddariad pellach |
| GDP fesul pen o'r boblogaeth | Gwella (cynnydd) | 2022 £27,595 yf Wrecsam 4ydd allan o 22 ALI Cymru ar gyfer GDP- cynnydd | Disgwyl am ryddhau yn y dyfodol |

| DANGOSYDD CYD-DESTUNOL | BETH YW PERFFORMIAD DA? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL | DIWEDDARIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|
| Cyflog Cyfartalog | Gwella (cynnydd) | 2022<br>£30,908 y flwyddyn Wrecsam<br>7fed allan o 22 ALl yng Nghymru yn ôl y cyflog cyfartalog. | 2023<br>£32,921 y flwyddyn Wrecsam<br>7fed allan o 22 ALl yng Nghymru yn ôl y cyflog cyfartalog. |
| Cyfraddau diweithdra | Gwella (gostyngiad) | 2022<br>5% Wrecsam | 2023<br>2.2% Wrecsam<br>3.6% Cymru |
| Canran y bobl ifanc 16-64 oed mewn cyflogaeth yn Wrecsam | Gwella (cynnydd) | 2021<br>70.2% Wrecsam<br>73.4% Cymru | 2023<br>80.4% Wrecsam<br>74.1% Cymru |
| Dosbarthiadau Galwedigaeth Safonol (SOC) | Gwella (cynnydd) | 2022<br>Cymru<br>SOC 1-3 45.9%<br>SOC 6-7 16.1% | 2023<br>Wrecsam<br>SOC 1-3 46.2%<br>SOC 6-7 17.1%<br>Cymru<br>SOC 1-3 47.2%<br>SOC 6-7 16.7% |
| Gwerth y gwariant gan ymwelwyr ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. | Gwella (cynnydd) | 2021<br>£101.02m | 2022<br>£151.77m<br>Yn aros ffigurau 2023 |

# SICRHAU BOD WRECSAM YN LLE TEG A DIOGEL

## COMG CYFFREDINOL – ASESIAD CYFFREDINOL MELYN

Yn ein Cynllun y Cyngor 2023-28 rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn lle teg a diogel. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun, mae ein blaenoriaethau wedi helpu i sicrhau bod ein dinasyddion mwyaf diamddiffyn yn cael eu hamddiffyn, bod ein cymunedau'n teimlo ddiogel a'u bod yn ddiogel, a bod cymorth gwell i ddioddefwyr troseddau. Rydym wedi cyflawni hyn drwy fentrau megis y Grŵp Rheoli Pobl Ddiamddiffyn sydd mewn Perygl (VARM) ac ymyriadau meddygol a lles a ddarparwyd gan Hafan y Dref i bobl sy'n defnyddio economi'r nos. Rydym wedi gweithio i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu ac i ddatblygu argaeledd ac ymwybyddiaeth o lwybrau adrodd ac rydym wedi datblygu proses gadarn ar gyfer adrodd am bryderon am bobl sydd mewn perygl o Gaethwasiaeth Fodern.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl a chymunedau Bwrdeistref Sirol Wrecsam, drwy'r flaenoriaeth hon rydym wedi blaenoriaethu galluogi ein holl gymunedau i gael mynediad at wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau digidol trwy hyrwyddo gweithredol a chefnogaeth gydag ymgysylltu digidol.

Yn 2023/24, teimlodd 94.75% y cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar ein gwefan. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi gweithio i alluogi pawb i ddweud eu dweud ar benderfyniadau a allai effeithio arnynt a chymryd rhan i ddylanwadu ar gynllunio a darparu ein gwasanaethau trwy ein llwybrau ymgynghori.

Yn 2023/24 buom yn gweithio i sicrhau bod tenantiaid cyngor yn gallu cael mynediad at dai o ansawdd uchel a thai gwarchod gyda chefnogaeth gwasanaethau effeithlon ac ymatebol trwy gynyddu stoc tai cyngor trwy adeiladu o'r newydd a chaffaeliadau. Fe wnaethom ganolbwyntio ar gynnal cydymffurfiaeth 100% â Safonau Ansawdd Tai Cymru presennol a gwella cwblhau atgyweiriadau yn amserol, gan sicrhau bod tai yn y sector preifat a chyhoeddus o ansawdd da ac yn cydymffurfio â safonau a deddfwriaeth genedlaethol.

Fe wnaethom gydnabod pwysigrwydd cymuned deg, gyfiawn a chynhwysol a pharhau i weithio i sicrhau bod ein cymunedau'n groesawgar. Fe wnaethom hyrwyddo a dathlu amrywiaeth a diwylliannau ein cymunedau trwy ddigwyddiadau cydlyniant cymunedol a gefnogir gan Ganolbwynt Aml-ddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru.

Rydym hefyd yn cydnabod lle nad oedd y perfformiad yn unol â'r disgwyl gan gynnwys y targed i adnewyddu 2 uned o dai gwarchod ym Mlwyddyn 1 a gyflawnwyd, ond a gafodd sgôr Melyn oherwydd rhywfaint o oedi oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Mae'r targed i ddatblygu proses integredig ar draws holl wasanaethau'r cyngor ar gyfer adrodd am bobl sydd mewn perygl o Gaethwasiaeth Fodern wedi'i gyrraedd ac mae proses adrodd gadarn bellach ar waith drwy Un Pwynt Mynediad i Blant ac Oedolion i wasanaethau (SPOAs). Fodd bynnag, mae'r mesur wedi'i raddio'n Oren gan fod gwaith i'w wneud o hyd i gryfhau'r fframwaith perfformiad ar gyfer coladu data mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern.

Yn gyffredinol, rydym wedi rhoi sgôr COMG Melyn i fesurau perfformiad ym Mlwyddyn 1 Cynllun y Cyngor 2023-28 ar gyfer y flaenoriaeth Sicrhau bod Wrecsam yn Deg ac yn Ddiogel. Mae hyn oherwydd

bod mwyafrif y mesurau ar gyfer y flaenoriaeth hon wedi cyrraedd eu targedau blynyddol ac wedi'u graddio'n Wyrdd, ond mae nifer fach o fesurau heb gyrraedd y targedau a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn a / neu wedi'u graddio'n Felyn neu Oren. Mae pwysau cyllidebol sy'n arwain at lai o adnoddau wedi effeithio ar berfformiad Blwyddyn 1 mewn rhai meysydd, ac mae hyn yn debygol o fod yr her fwyaf arwyddocaol o hyd i gyrraedd targedau ar gyfer y flaenoriaeth hon yn ail flwyddyn y cynllun. Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn galluogi trigolion ac ymwelwyr i deimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hyn a sut y gall gael dylanwad dwfn ar ansawdd bywyd pobl a'u gallu i ymgysylltu â'u cymuned mewn ffordd gadarnhaol sy'n rhoi boddhad i'r ddwy ochr.

Er mwyn gweld y canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt yn y flaenoriaeth hon, Ymwelwch â'n tudalen flaenoriaeth Cynllun y Cyngor; Sicrhau bod Wrecsam yn Lle Teg a Diogel.

## PRIF GYFLAWNIADAU

### TAI

- Cyflawnwyd 64% o atgyweiriadau i stoc tai cyngor o fewn yr amserlen berthnasol ar gyfer pob categori atgyweirio, gan ragori ar y ffigur targed o 60% ym Mlwyddyn 1, gan sicrhau bod deiliaid contractau yn parhau i gael tai o ansawdd da sy'n bodloni safonau a deddfwriaeth berthnasol.
- Mae cydymffurfiaeth 100% â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) 1 ar gyfer stoc tai cyngor wedi'i chynnal ym Mlwyddyn 1. Yn dilyn cyhoeddi canllawiau ar SATC 2023 ar gyfer landlordiaid cymdeithasol ym mis Ebrill 2024, bydd gwaith yn dechrau ym Mlwyddyn 2 i adeiladu ar y safon bresennol tuag at SATC 2023. Bydd cynnydd tuag at SATC 2023 yn dibynnu i raddau ar y cyllid a'r adnoddau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu darparu at y diben hwn.
- Cyflawnodd ymagwedd ragweithiol 541 o ymyriadau i unioni peryglon mewn tai sector preifat ym Mlwyddyn 1, sy'n sylweddol uwch na'r llinell sylfaen a'r ffigwr targed o 300 o ymyriadau. Yn anffodus, mae llai o adnoddau staffio yn golygu na ellir cynnal y dull hwn wrth symud ymlaen.
- Mae dros 98% o eiddo rhent preifat bellach yn cydymffurfio â safonau effeithlonrwydd ynni (y lefel cydymffurfio isaf yw tystysgrif perfformiad ynni (EPC) band E neu uwch.
- Rydym wedi gweithredu Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Wrecsam, sy'n amlinellu ymagwedd strategol y cyngor at gymorth tai ac atal digartrefedd a sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i lety sy'n diwallu eu hanghenion a'i gynnal, fel bod llai o bobl yn profi digartrefedd a chysgu allan. Mae'r strategaeth yn bodloni'r gofyniad statudol i bob Awdurdod Lleol gael Strategaeth Digartrefedd o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- Mae'r nifer blynyddol o droi allan o denantiaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddigartrefedd yn isel. Ym Mlwyddyn 1 Cynllun y Cyngor 2023-28 gostyngwyd y ffigwr i 8, o linell sylfaen o 9 ar ddiwedd y Cynllun y Cyngor blaenorol.

### CYFRANOGI

- Teimlai 94.75% o gwsmeriaid a ddefnyddiodd wasanaethau'r cygor ar-lein ym Mlwyddyn 1 ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau drwy wefan y cyngor.

- Gwnaed 81% o geisiadau gwasanaeth trwy hunanwasanaeth yn hytrach na theleffoni cyfryngol, gan ragori ar y targed o 80% o geisiadau.

- Mae sefydlu Grŵp Cefnogwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chyfranogi wedi helpu i ymgorffori ymagwedd y cyngor at gyfranogi ar draws y sefydliad.

### CYDLYNIANT CYMUNEDOL

- Sicrhawyd cyllid i Hafan y Dref barhau i ddarparu cefnogaeth a chymorth i bobl sy'n defnyddio economi'r nos yn Wrecsam.

- Cefnogwyd 91.03% o'r aelwydydd a gafodd gymorth gan y Cynlluniau Cartrefi i'r Wcrain ac Uwch-Noddwyr i symud ymlaen i lety cynaliadwy hirdymor naill ai yn Wrecsam neu rywle arall yng Nghymru a Lloegr, a ragorodd ar y targed o 46.8%.

- Roedd 62.3% o oedolion a adsefydlwyd o dan Bolisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid (ARAP) a Chynllun Adsefydlu Pobl Ddiamddiffyn (VPRS) wedi cyrchu cyflogaeth, hyfforddiant, gwirfoddoli neu addysg heblaw ESOL, gan eu galluogi i adeiladu dyfodol cynaliadwy.

- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu a gweithredu Strategaeth Trechu Tlodi 2023-28 er bod cyfyngiadau adnoddau a chapasiti wedi effeithio ar gynnydd. Nod y strategaeth yw atal tlodi, cefnogi pobl allan o dlodi a lliniaru effeithiau tlodi, gan sicrhau bod pobl a chymunedau'n cael eu cefnogi i gyflawni lles ariannol ac iechyd ac amodau byw da; a gall wella ansawdd bywyd trwy gyfleoedd hamdden, cymdeithasol a chyflogaeth.

## SUT Y GWNAETHOM GEFNOGI CYDRADDOLDEB

Mae'r flaenoriaeth hon yn cynnwys sawl canlyniad sy'n cyfrannu at ganlyniadau cydraddoldeb strategol y cyngor ac at wella cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y cyngor ac yn y gymuned ehangach.

- Yn Ch4, cafodd 19 o'r 21 achos o bobl ifanc a gyfeiriwyd at y Panel Pobl sydd ar Goll, wedi'u Camfanteisio arnynt ac wedi'u Masnachu (MET) eu datrys, gan sicrhau bod y bobl ifanc yn cael eu diogelu rhag Caethwasiaeth Fodern. Mae hyn yn cynrychioli 90.48% o achosion ac yn gynnydd sylweddol ar y ffigwr llinell sylfaen o 30%.

- Cymeradwywyd Polisïau Corfforaethol Caethwasiaeth Fodern, Sianelu ac Atal y cyngor gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Medi 2023. Bydd y polisïau hyn yn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag camfanteisio, trais a chamdriniaeth, gan gynnwys y risg o gael eu denu i derfysgaeth. Mae'r polisïau'n sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, a'r Panel Diogelu Corfforaethol sy'n llywodraethu'r polisïau.

- Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r Grwp Rheoli Pobl Ddiamddiffyn sydd mewn Perygl (VARM) wedi gostwng oherwydd mwy o ymyriadau amlasiantaethol ar lefel ataliol a alluogwyd gan grwpiau gweithredol yn y ddwy ardal blismona.

- Cyflwynwyd cyfleoedd ESOL ychwanegol i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac ategu'r ddarpariaeth bresennol. Roedd y rhain yn cynnwys grŵp sgwrsio anffurfiol ceiswyr lloches a gefnogir gan weithwyr chwarae i atal pryderon gofal plant rhag cyflwyno rhwystr i gyfranogiad; darpariaeth hunan-astudio ar-lein sy'n ategu'r addysgu ESOL presennol i bobl ar y Cynllun Adsefydlu; a'r cyfle i bobl ar y Cynllun Adsefydlu ddatblygu sgiliau ESOL presennol drwy fynychu cwrs Saesneg at Ddibenion Busnes ym Mhrifysgol Glyndŵr yn ystod dau chwarter cyntaf 2023/24.

- Cefnogwyd cyfanswm o 80 o ddigwyddiadau a sesiynau cymunedol gan Ganolbwynt Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru gan gynnwys hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth Cymru; digwyddiadau amlddiwylliannol a rhyng-ffydd; a digwyddiadau sy'n cefnogi Hanes Pobl Dduon, gofalwyr ifanc, LHDTC+ ac iechyd meddwl.

- Cynhaliwyd hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn ymwneud â Chydlyniant Cymunedol ym Mlwyddyn 1, gan gynnwys sesiynau ar Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru (AWRAP), ymwybyddiaeth Sipsiwn a Theithwyr, a rhagfarn ddiarwybod.

- Mae Grŵp Cefnogwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynnwys wedi'i sefydlu i ymgorffori ymagwedd y cyngor at yr egwyddorion hyn ar draws y sefydliad.

- Ni nododd adroddiad ymgynghori Cynllun y Cyngor amrywiaeth sylweddol mewn adborth gan unrhyw grŵp nodweddion gwarchodedig heblaw plant a phobl ifanc. Mae canlyniad Blwyddyn 1 yn is na 20%, sef y ffigwr sylfaenol y gostyngwyd yr amrywiad ar gyfer y grŵp hwn iddo ers ymgynghoriad cyntaf Cynllun y Cyngor 2020-23. Fodd bynnag, cydnabyddir bod gwaith i'w wneud o hyd i gynnwys pobl ifanc wrth gynllunio ein gwasanaethau

## HERIAU A SYMUD YMLAEN

Ar y cyfan rydym wedi graddio blaenoriaeth y cyngor hwn fel Melyn. Rydym wedi gwneud y dyfarniad hwn oherwydd bod mwyafrif y targedau mesur deilliant ar gyfer y flaenoriaeth hon ym Mlwyddyn 1 wedi'u cyrraedd; fodd bynnag, ni chyrhaeddodd nifer fach o fesurau eu targedau blwyddyn gyntaf disgwyliedig. Ymhlith y mesurau lle nad oedd cynnydd yn unol â'r disgwyl mae:

- Roedd nifer y bobl sy'n cysgu allan yn Wrecsam yn 3, a oedd yn uwch na'r nifer targed o 2 ond yn cynrychioli gwelliant ar y ffigwr llinell sylfaen o 4. O ystyried y cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysgu allan yn dod i mewn i Wrecsam o'r tu allan i'r ardal, cynigir adolygu'r ffigwr targed i 4 ar gyfer Blwyddyn 2.

- Gostyngodd hyd arhosiad mewn llety gwely a brecwast neu westy i 103 diwrnod, gan fethu'r targed o 100 diwrnod o drwch blewyn. Fodd bynnag, roedd hyn yn welliant ar y ffigwr sylfaenol o 122 diwrnod.

- Yn hytrach na chynyddu, mae nifer yr achosion a gyfeiriwyd at y Grŵp Rheoli Pobl Ddiamddiffyn sydd mewn Perygl

- (VARM) wedi gostwng i 23, sy'n is na'r ffigwr targed o 36 o achosion a'r llinell sylfaen o 30. Fodd bynnag, mae gwaith amlasiantaethol effeithiol ar lefel ataliol wedi lleihau'r cynnydd mewn achosion i'r pwynt lle mae angen cyfeirio.

- Canran yr atgyfeiriadau VARM a ddatryswyd ym Mlwyddyn 1 oedd 60.87% yn erbyn llinell sylfaen a tharged o 83%, oherwydd natur gymhleth yr atgyfeiriadau a'r angen am ymyriadau gan wasanaethau eraill cyn y gellir rhyddhau achosion. Nodwyd hefyd nad yw'r cyfrifiad canrannol presennol yn gadarn gan ei fod yn mesur yn erbyn atgyfeiriadau newydd yn unig, nid y rhai sydd eisoes yn y system. Cynigir felly bod y mesur hwn yn cael ei ddiwygio i nifer, nid canran, yr atgyfeiriadau a ddatryswyd ym Mlwyddyn 2.

- Mae gwaith ar y Strategaeth Trechu Tlodi yn mynd rhagddo, ond mae wedi'i ohirio oherwydd ystyriaethau cyllidebol ac adnoddau sy'n effeithio ar y gallu i symud y gwaith yn ei flaen. Mae adroddiad ar y strategaeth i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddi (EBISC) ym mis Medi 2024.

- Mae pwysau cyllidebol drwy gydol y flwyddyn wedi effeithio ar nifer o'r mesurau canlyniadau hyn sydd wedi lleihau adnoddau a chapasiti i gyrraedd y targedau a ragwelwyd; bydd hyn yn parhau i fod yn her sylweddol mewn llawer o feysydd ym Mlwyddyn 2.

- Ar gyfer rhai mesurau, er bod y targed ar gyfer Blwyddyn 1 wedi'i gyrraedd neu wedi rhagori arno, mae eisoes yn hysbys y bydd adnoddau ym Mlwyddyn 2 yn cael eu lleihau'n sylweddol oherwydd pwysau cyllidebol, a bu'n angenrheidiol adolygu targedau Blwyddyn 2 o ganlyniad i hyn. Gall cynnydd tuag at dargedau ar gyfer rhai mesurau eraill ddibynnu ar faint o gyllid neu adnoddau sydd ar gael gan gyrff allanol fel Llywodraeth Cymru.

- Fodd bynnag, ar gyfer rhai mesurau mae cyflwyno gwell effeithlonrwydd a thechnoleg megis systemau digidol yn golygu bod adrannau yn parhau i fod yn hyderus, er gwaethaf cyfyngiadau o ran adnoddau a / neu cyllidebol, gellir cynnal y targedau a gyflawnwyd ym Mlwyddyn 1 neu hyd yn oed eu gwella ym Mlwyddyn 2.

Mae rhai meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt ym Mlwyddyn 2 yn cynnwys:

- Gweithredu SATC 2023 o 1 Ebrill 2024.

- Datblygu cynllun gwaith y Cefnogwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chyfranogi a chefnogi a hyfforddi'r Cefnogwyr hyn i gyflawni eu rôl yn eu hadrannau.

- Cyflawni prosiectau sy'n sail i'r Strategaeth TGCh a Digidol 2024-27 ar ei newydd wedd

## EIN MESURAU CANLYNIADAU

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y plant a phobl ifanc y mae eu risg o Gaethwasiaeth Fodern wedi'i lleihau | Gwella (cynnydd) | Q1 23/24 – 27% | 30% | 44.55% GWYRDD | Ydy |
| Trefnu / cefnogi nifer o ddigwyddiadau / gweithgareddau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru i hyrwyddo integreiddio rhwng grwpiau a helpu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cymunedol da. | Sustain | 20 | 20 | 113 (wedi rhagori ar y targed) GWYRDD | Ydy |
| Canran y cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein ac sy'n teimlo ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar ein gwefan. | Cynnal | 95% | 95% | 94.75% GWYRDD | Ydy |
| Canran y ceisiadau gwasanaeth trwy hunan wasanaeth yn hytrach na thrwy deleffoni wedi'i gyfryngu. | Gwella (cynnydd) | 77% | 80% | 81% GWYRDD | Ydy |
| Llai o amrywiaeth rhwng grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (Deddf Cydraddoldeb 2010) o'i gymharu â demograffeg y Fwrdeistref Sirol, yng ngweithgareddau cynhwysiant y Cyngor | Gwella (gostyngiad) | Amrywiant yn y grwpiau oedran iau:-26.72% | Lleihau amrywiant mewn grwpiau oedran iau i lai nag 20% | -20% Dim ymgynghoriadau corfforaethol yn ystod 2023/24, sgôr yn adlewyrchu canlyniad ymgynghoriadau 2022/23 GWYRDD | Ydy |
| Canran yr aelwydydd ar y Cynlluniau Cartrefi i Wcráin ac Uwch-noddwr sydd wedi derbyn cefnogaeth i symud ymlaen i lety mwy hirdymor a chynaliadwy yn Wrecsam ac mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr. | Cynnal | 46.8% (cyfartaledd Llywodraeth Cymru) | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | 91.03% GWYRDD | Ydy |

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl sydd wedi cael eu hadsefydlu dan gynllun y Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid a'r Cynllun Adleoli Unigolion Diamddiffyn (oedolion) sy'n cael mynediad at gyflogaeth, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu addysg (gan eithrio Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)) | Gwella (cynnydd) | 60% | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | 62.3% GWYRDD | Ydy |
| Y cynnydd yn ein stoc dai o ganlyniad i adeiladau a chaffaeliadau newydd. | Cynnal | 4 | 5 | 15 (rhagori ar y targed) GWYRDD | Ydy |
| Canran y stoc tai Cyngor sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Heb ddechrau | Ddim yn cael ei adrodd |
| Nifer yr ymyraethau gydag eiddo rhent yn y sector breifat i fynd i'r afael â pheryglon (peryglon fel y diffinnir yng nghanllaw gweithredu'r Ddeddf Tai 2004) | Gwella (cynnydd) | 300 | 300 | 541 GWYRDD | Ydy |
| Nifer y bobl yn cysgu ar y stryd yn Wrecsam. | Cynnal | 4 | 2 | 3 MELYN | Na |
| Lleihau nifer y bobl a gaiff eu troi allan o eiddo CBSW a'u gwneud yn ddigartref | Gwella (gostyngiad) | 9 | 8 | 8 GWYRDD | Ydy |
| Gostyngiad yn hyd arhosiad mewn Gwely a Brecwast neu westy | Cynnal | 122 | 100 | 103 GWYRDD | Na |

[1] COMG yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed tuag at y targed diwedd blwyddyn. Gweler tudalen 8am ddiffiniadau.

## GOSOD Y CYD-DESTUN

Er mwyn helpu i ddeall y darlun cyfredol ar gyfer pob blaenoriaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam rydym wedi cynnwys set o ddangosyddion cyd-destunol. Tueddiadau a materion lleol a chenedlaethol yw'r rhain y mae ein canlyniadau'n cyfrannu atynt. Mae'r rhain yn ddangosyddion sy'n gofyn am gydweithrediad ac integreiddiad ein partneriaid, sefydliadau allanol a chymunedau i wella, fodd bynnag disgwylir y bydd blaenoriaethau'r cyngor a'r gwaith sy'n sail iddynt yn effeithio ar y dangosyddion yn y tymor hir.

| DANGOSYDD CYD-DESTUNOL | BETH YW PERFFORMIAD DA? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL | DIWEDDARIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|
| Lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam | Gwella (gostyngiad) | 2022/23<br>3158 digwyddiad | 2023/24<br>3059 digwyddiad |
| Nifer y troseddau casineb sy'n cael eu riportio | Gwella (gostyngiad) | 2022/23<br>267 | 2023/24<br>225 |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref yn Wrecsam | Gwella (cynnydd) | 2021/22<br>53% Wrecsam<br>66.8% Cymru | 2022/23<br>71% Wrecsam (3ydd o'r holl ALI)<br>59% Cymru |
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Wrecsam sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru | Gwella (gostyngiad) | 2019<br>7% | Disgwylir y datganiad nesaf yn 2025/26 |
| Canran yr oedolion yng Nghymru sydd wedi'u heithrio'n ddigidol (sy'n golygu nad ydynt wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol yn y tri mis blaenorol) | Gwella (gostyngiad) | 2021/22<br>7%<br>(32% 75+, 14% o breswylwyr tai cymdeithasol, 12% â salwch cyfyngus hirdymor) | Yn aros am y diweddariad nesaf |
| Cyfanswm y troseddau yn Wrecsam | Gwella (gostyngiad) | 2022<br>15,408 | 2023<br>13,326 |

# GWELLA ADDYSG A DYSGU

## COMG CYFFREDINOL – ASESIAD CYFFREDINOL MELYN

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, rydym yn cydnabod yr effaith mae addysg a dysgu yn ei gael ar bob grŵp oedran. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i bartneriaid wedi gweithio tuag at wella'r cymorth, her ac ymyriadau a gynigir gan yr Awdurdod Lleol i greu system gynaliadwy a gwella ei hun. Ym mis Gorffennaf 2023, cawsom ein tynnu'n llwyddiannus o gategori dilyniant Estyn ar ôl cael ein barnu i fod wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas ag argymhellion arolygu Awdurdodau Lleol, yn dilyn arolwg craidd 2019. Mae effeithiolrwydd ein gwasanaeth addysg wedi gwella'n sylweddol ac mae'n cynnig dull systematig o werthuso gwasanaethau addysg, cynllunio ar gyfer newid a chanolbwyntio cymorth i ysgolion a lleoliadau addysg y mae angen eu gwella.[3]

Yn dilyn hyn, mae blaenoriaeth newydd y cyngor 'Gwella Addysg a Dysgu' wedi canolbwyntio ein cyfeiriad ac wedi llywio ein cynllunio i roi'r cyfleoedd i'n holl ddysgwyr gyrraedd eu potensial, beth bynnag fo'u hoedran, cefndir neu amgylchiadau. Yn 2023/24 cytunodd y gwasanaeth addysg ar bedwar Maes Gwella â Blaenoriaeth sy'n darparu ffocws strategol a gweithredol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ac sy'n cofnodi'r gwaith o gynllunio gweithgareddau a rhaglenni gwaith a fydd yn cefnogi cyflawni canlyniadau blaenoriaeth Gwella Addysg a Dysgu. Mae'r pedwar Maes Gwella â Blaenoriaeth yn cynnwys:

- Datblygu System Hunan-Wella Effeithiol
- Gwella Iechyd a Lles Emosiynol i bawb
- Gwella Mynediad, Ymgysylltiad a Chyfranogiad mewn Dysgu
- Gwella Darpariaeth ac Amgylcheddau Dysgu

Wedi'i wreiddio ym mhob rhan o'n meysydd Gwella â Blaenoriaeth mae cydnabyddiaeth bod bwlch sylweddol o hyd mewn canlyniadau addysgol o fewn ac ar draws grwpiau o ddysgwyr. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i gyflwyno cynnig ADY effeithiol, darparu amgylcheddau dysgu hygyrch, gwella pontio rhwng cyfnodau dysgu a chanolbwyntio ar ymyriadau cynnar i gefnogi dysgwyr i oresgyn heriau a chyfrannu'n weithredol at eu dysgu. Gyda galw cynyddol am gymorth ar gyfer llesiant dysgwyr, sydd wedi gwaethygu o ganlyniad i'r pandemig, rydym wedi arwain Grŵp Cydlynu Lles amlasiantaethol i adolygu tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac i ymateb mewn modd amserol trwy flaenoriaethu adnoddau.

Mae cyflwyniad llwyddiannus y Cwricwlwm i Gymru newydd yn cefnogi dysgwyr ar wahanol gamau o addysg a dysgu i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, gyda phob ysgol yn Wrecsam, hyd at Flwyddyn 8 bellach yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae'r cwricwlwm newydd yn helpu ein dysgwyr i gael gwell iechyd a lles emosiynol ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn canlyniadau addysgol, gan gynnwys lleihau effaith tlodi ar ddilyniant a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae'r flaenoriaeth hon yn fwy nac ein dysgwyr oedran ysgol ond hefyd am ddarparu sgiliau am oes. Rydym wedi canolbwyntio ar bontio ôl-16 drwy amrywiaeth o gynlluniau gan gynnwys TRAC+, Twf Swyddi Cymru+ ac wedi gweithio gyda'n

[3] Adroddiad Arolwg Estyn Gorffennaf 2023

partneriaid a'r amrywiaeth o leoliadau addysg ar draws y Fwrdeistref Sirol i wella'r pontio a mynediad i brentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi, addysg uwch ac ailhyfforddi.

Fodd bynnag, ochr yn ochr â holl Awdurdodau Lleol Cymru, dros y pedair blynedd nesaf rydym yn wynebu'r her o wneud mwy gyda llai o ganlyniad i heriau cyllidebol cynghorau. Mewn ymateb i hyn byddwn yn adolygu ein Cynlluniau Gwella Blaenoriaeth i sicrhau eu bod yn cyflawni ond o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r gwelliannau y cytunwyd arnynt o fewn y Flaenoriaeth Gwella Addysg a Dysgu, drwy ymateb i heriau'n gynnar a datblygu atebion arloesol a chreadigol, gan weithio gyda'n partneriaid i roi cyfleoedd i bobl yn ein cymunedau godi a chyflawni eu dyheadau.

Er mwyn gweld y canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt yn y flaenoriaeth hon, Ymwelwch â'n tudalen flaenoriaeth Cynllun y Cyngor; Gwella Addysg a Dysgu.

## PRIF GYFLAWNIADAU

Yn ystod 2023/24 cytunwyd ar y pedwar Cynllun Ardal Gwella â Blaenoriaeth a gosodwyd cyfeiriad y gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein canlyniadau Blaenoriaeth Gwella Addysg a Dysgu. Mae uchafbwyntiau o'r rhain yn cynnwys:

### DATBLYGU SYSTEM HUNAN-WELLA EFFEITHIOL

- Cyflwynwyd y Cwricwlwm i Gymru newydd mewn ysgolion yng Nghymru o fis Medi 2022. Mae pob ysgol gynradd ac uwchradd (hyd at Flwyddyn 8) ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam bellach yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, mae wyth ysgol gynradd, dwy ysgol uwchradd ac ysgol arbennig yn Wrecsam wedi bod yn destun arolygon llawn gan Estyn ac ym mhob achos, gwnaeth Estyn sylwadau cadarnhaol ar gynnydd yr ysgolion wrth weithredu, neu baratoi ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.
- Mae pob ysgol ar draws Wrecsam wedi cael cymorth i weithredu'r Fframwaith Canllawiau Gwella Ysgolion newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Nod y fframwaith yw gwella ysgolion yn gynaliadwy a sbarduno ymddygiadau ac arferion sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu newydd, tra'n cefnogi ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad.
- Er mwyn gwella ein dull o goladu data oedolion sy'n dysgu, buom yn gweithio gyda'n partneriaid i adolygu system TG newydd i rannu data. Bydd hyn yn ein helpu i olrhain cynnydd a nodi meysydd i'w gwella yn y dyfodol.
- Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar leihau'r risg o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) drwy ddefnyddio data i nodi dysgwyr sydd mewn perygl o ddod yn NEET ac ymateb i anghenion. Ochr yn ochr â hyn, mae TRAC+, prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sydd mewn perygl o ddod yn NEET, yn helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn cael y cyfleoedd i lwyddo

### GWELLA IECHYD A LLES EMOSIYNOL I BAWB

- Mae mwyafrif yr ysgolion ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, 86%, bellach yn cymryd rhan yn yr arolwg Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol sy'n darparu ffynhonnell gyfoethog o dystiolaeth a gwybodaeth

i gefnogi ymyriadau wedi'u teilwra sy'n bodloni anghenion dysgwyr a allai fod angen cymorth.

- Mae pob ysgol wedi defnyddio Fframwaith Lles Emosiynol a Meddyliol Llywodraeth Cymru i ymgorffori ymagwedd ysgol gyfan at les. Gyda 37.9% o ysgolion yn dechrau rhoi eu cynlluniau gweithredu ar waith, mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Rydym wedi parhau i gynnig amrywiaeth o ymyriadau a hyfforddiant i ysgolion gan gynnwys; Amser Cylch, cwnsela, Rhaglen Gwydnwch Cyfeillion, cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol a'r Rhaglen Cefnogi Myfyrwyr.
- Mewn ymateb i restrau aros am wasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol, mae'r cwnsela sydd ar gael i ysgolion cynradd wedi cynyddu ochr yn ochr â rhaglen o gefnogi grwpiau o blant mewn partneriaeth â CAMHS, drwy'r rhaglen 'My Happy Mind.'
- Er mwyn sicrhau bod y cymorth hwn yn cael ei ddarparu mewn ffordd gydlynol, mae'r Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar yn arwain grŵp cydlynu lles aml-asiantaeth. Mae'r grŵp hwn yn sicrhau bod hyfforddiant ac ymyriadau'n cael eu darparu mewn ffordd gydlynol, gan osgoi dyblygu, a gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

## GWELLA MYNEDIAD, YMGYSYLLTIAD A CHYFRANOGIAD MEWN DYSGU

Gan weithio gydag ysgolion a lleoliadau addysg rydym wedi canolbwyntio ar reoli cyfnodau pontio yn 2023/24. Mae pa mor dda rydym yn rheoli cyfnodau pontio yn effeithio ar ymgysylltiad a chyfranogiad dysgwyr yn eu haddysg. Mae enghreifftiau o waith yn cynnwys:

- Mae gweithredu adroddiad dilyniant a chyfarfod pontio ar ddiwedd addysg feithrin statudol bellach yn darparu crynodeb unigol ar gyfer pob plentyn.
- Mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae'n cefnogi pontio mwy llwyddiannus.
- Mae'r broses bontio rhwng cynradd ac uwchradd wedi'i gwella trwy gyfarfodydd rhwydwaith, gan alluogi cydweithwyr i rwydweithio, codi cwestiynau ac archwilio atebion i drosglwyddo data a gwybodaeth o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. Ochr yn ochr â chyfarfodydd hanner tymor rhwng athrawon Blwyddyn 6 a 7 i wella'r ddarpariaeth ar gyfer trosglwyddo, mae gwell cynnydd yn dystiolaeth o effaith gynnar.
- Mae Gweithwyr Ieuenctid pontio CA2 wedi darparu ymyrraeth gynnar i fyfyrwyr Blwyddyn 6 sy'n cael trafferthion emosiynol, academaidd, cymdeithasol ac sydd â diffyg dyhead. Mae rhaglen ymyrraeth wedi'i chyflwyno drwy sesiynau grŵp pwrpasol neu gymorth personol unigol, drwy ganolbwyntio ar godi eu hyder a'u hunan-barch. Drwy gydol yr haf, cafodd dros 90 o blant ar draws 13 o ysgolion cynradd fynediad i ymyrraeth. Darparodd y Tîm Gwaith Ieuenctid mewn Addysg mewn rhai o'n hysgolion uwchradd gymorth pontio drwy gydol tymor yr haf ac ymgysylltu â 789 o bobl ifanc ar draws 30 o ysgolion, gyda 30 o deuluoedd hefyd yn cael cymorth.
- Yn ystod y cyfnod pontio ôl-16, mae ALI Wrecsam a Choleg Cambria wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod pontio'n cael ei gynllunio'n gywir, bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a bod

sylw arbennig yn cael ei roi i anghenion dysgwyr diamddiffyn, fel y rhai y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio, plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Ym mis Medi 2022, trosglwyddodd 89% o'r garfan i addysg amser llawn naill ai yng Ngholeg Cambria neu 6ed dosbarth mewn ysgol, 1% yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan.

- Rhoddwyd cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a adawodd Flwyddyn 11 yn 2023 trwy bontio pwrpasol mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau. Mae rhieni a dysgwyr wedi adrodd sut mae'r broses hon wedi helpu i ddod o hyd i'r cwrs cywir a chyfnod pontio cadarnhaol. Ym mlwyddyn academaidd 2022/23, gwnaeth 93.3% o ddysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a adawodd Blwyddyn 11 bontio'n llwyddiannus o addysg statudol i addysg, hyfforddiant neu waith, cynnydd o 89% yn 2021/22.
- Parhau i gyflwyno Twf Swyddi Cymru+, sef rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed sy'n rhoi'r sgiliau, y cymwysterau a'r profiad i bobl ifanc ddod o hyd i swydd neu hyfforddiant pellach. Cwblhaodd 42 o ymadawyr Blwyddyn 11 y rhaglen yn 2023. Roedd pob un o'r dysgwyr hyn wedi ymgysylltu am chwe wythnos, a symudodd 40 o ddysgwyr ymlaen i gyrsiau addysg bellach amser llawn ym mis Medi.

### YMGYSYLLTU

- O fewn y cyd-destun cenedlaethol, mae presenoldeb addysg uwchradd Wrecsam yn parhau â chynnydd parhaus, gan gynnal ei safle ymhlith y 4 uchaf yng Nghymru ers mis Medi 2023.
- Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn parhau i gynnal gwelliannau, gan godi o 92.10% ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2022/23 i 92.96% ar ddiwedd chwarter 4 (2023/24).
- Rydym wedi datblygu a gweithredu canllawiau Cynllun Cymorth Bugeiliol newydd i gefnogi ein dysgwyr sy'n cael trafferth ymgysylltu â'u dysgu yn well.

### GWELLA DARPARIAETH AC AMGYLCHEDDAU DYSGU

- Er mwyn sicrhau bod ein hadeiladau yn addas at y diben, mae gwaith wedi'i gwblhau i adnewyddu adeiladau gan gynnwys; toiledau newydd, ffenestri, gosod cladin newydd, adnewyddu ystafelloedd dosbarth newydd a gosod toeau newydd.
- Ym mis Medi 2023, arolygwyd pob ysgol i ganfod Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth (RAAC). Ni chanfu archwiliadau safle gan beiriannydd strwythurol unrhyw achosion wedi'u cadarnhau o RAAC yn ysgolion Wrecsam.
- Cynigiwyd lle i bob dysgwr a ymgeisiodd am Addysg Gymraeg yn 2023/24.

## HERIAU A SYMUD YMLAEN

Oherwydd y rhagolygon economaidd heriol i'r cyngor dros y tair blynedd nesaf, bydd y gwasanaeth addysg yn canolbwyntio ar wneud arbedion lle bo modd a bydd yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion a'u cefnogi i reoli eu cyllidebau.

- Adolygu ein Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth i sicrhau eu bod yn cyflawni ond o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol.
- Mewn addysg gynradd; bydd arweinwyr ysgol, athrawon a Llywodraethwyr yn myfyrio ar, yn gwerthuso ac yn arwain gwelliannau mewn perthynas â chynnydd dysgwyr. Bydd gwerthuso cynnydd dysgwyr yn cael ei lywio gan ystod eang o wybodaeth a thystiolaeth. Bydd y myfyrio a'r gwerthuso hwn yn ategu Fframwaith Canllawiau Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru a'r adnodd cenedlaethol 'Gwerthuso a Gwella.'
- Parhau i gefnogi ysgolion uwchradd gyda chefnogaeth bwrpasol lle nodir bod cyfraddau presenoldeb yn gostwng er mwyn sicrhau bod presenoldeb yn gwella o ffigurau llinell sylfaen.
- Parhau i ddatblygu ein data olrhain ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cefnogi gan Gynlluniau Cymorth Bugeiliol i helpu i gyfeirio adnoddau a chymorth.
- Parhau â mesurau perfformiad interim CA4 yn y tymor byr wrth ddatblygu trefniadau adrodd diwygiedig ar ddata canlyniadau cymwysterau ochr yn ochr â chanllawiau Llywodraeth Cymru a fydd yn:
    - Symud i ffwrdd o'r system flaenorol o agregu data at ddibenion atebolrwydd.
    - Pontio tuag at drefniadau gwerthuso a gwella newydd
    - Cefnogi cydweithio dyfnach rhwng ysgolion a
    - Sicrhau codi safonau ar gyfer pob dysgwr.
- Yn dilyn cyhoeddi Fframwaith Canllawiau Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru, nod Llywodraeth Cymru yw archwilio'r ffordd orau i wella ysgolion gael eu cefnogi gan awdurdodau lleol ar dair lefel wahanol; lefel leol, ar draws awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn canolbwyntio ar adolygu Model Gwella Ysgolion Wrecsam a gwerthuso dulliau posibl o drosglwyddo i fodel newydd ar gyfer 2025/2026.
- Parhau i wella'r cynnydd da a wnaed gyda dysgwyr ADY ym Mlwyddyn 11 gan symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant trwy waith cydweithredol gyda'r Tîm NEET, Gyrfa Cymru, Coleg Cambria a darparwyr eraill.
- Ffocws parhaus ar drawsnewidiadau a chymorth pwrpasol i ysgolion i wella deilliannau ar gyfer pob dysgwr, a dysgwyr yr effeithir arnynt gan dlodi er mwyn cynnal a lle bo modd gwella canran y dysgwyr CA4 sy'n symud ymlaen i chweched dosbarth, coleg, prentisiaethau neu gyflogaeth.

## EIN MESURAU CANLYNIADAU

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mesur Canlyniadau Cynnydd CA4 | Mesur Newydd | Mesur Newydd | Datblygu'r mesur yn unol â chanllawiau LIC | Yn mynd rhagddo ar gyfer adrodd am 2024/25 GWYRDD | Ydy |
| Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol Pedwar sy'n symud ymlaen i'r chweched dosbarth, coleg, prentisiaethau neu gyflogaeth | Gwella (cynnydd) | Wrecsam: 96.5% Cymru: 96.7% | Cynnydd (yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol) | 96.3% Carfan Blwyddyn 11 2022/23 MELYN | Na |
| Presenoldeb cyffredinol ysgolion uwchradd | Gwella (cynnydd) | 01/09/2022 - 31/03/2023 89.3% | Cynnydd (o'r llinell sylfaen yn unol â thueddiadau cenedlaethol) | 88.56% OREN | Na |
| Presenoldeb cyffredinol mewn ysgolion cynradd | Gwella (cynnydd) | 01/09/2022 - 31/03/2023 92.10% | Cynnydd (o'r llinell sylfaen yn unol â thueddiadau cenedlaethol) | 92.96% GWYRDD | Ydy |
| Presenoldeb cyffredinol mewn ysgolion | Gwella (cynnydd) | 01/09/2022 – 31/03/2023 91% | Cynnydd (o'r llinell sylfaen yn unol â thueddiadau cenedlaethol) | 91.26% GWYRDD | Ydy |

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gostyngiad yn nifer y dysgwyr y mae eu presenoldeb yn llai na 85% | Gwella (gostyngiad) | 01/09/22 – 01/03/23<br>2936 o ddysgwyr gyda phresenoldeb o dan 85%. | Gostyngiad (i lai na 2700) | 2904<br>OREN | Na |
| Nifer y dysgwyr ar Gynllun Cefnogaeth Fugeiliol | Mesur Newydd | Mesur Newydd | Diwygio canllawiau'r Cynllun Cefnogaeth Fugeiliol | Yn mynd rhagddo<br>Aros am y casgliad data cyntaf<br>MELYN | Ydy |
| Nifer y dysgwyr â Chynllun Cefnogaeth Fugeiliol sy'n cael profiad pontio 16 cadarnhaol (Cynllun Cefnogaeth Fugeiliol) | Mesur Newydd | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen a chynnydd o'r llinell sylfaen | Yn mynd rhagddo<br>Aros am y casgliad data cyntaf<br>MELYN | Ydy |
| Canran y disgyblion (gan ddefnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol, PASS) sy'n ymateb mewn modd cadarnhaol i ba mor hyderus a llwyddiannus maent yn teimlo am eu galluoedd fel dysgwyr. | Gwella (cynnydd) | Cynradd - 79.2%<br>Uwchradd - 71.0% | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | Arolwg wedi'i gwblhau yn aros am ryddhau data 2024/25 | Ddim yn cael ei adrodd |
| Mesur Canlyniadau Cynnydd - PYADd (CA4) | Mesur Newydd | Mesur Newydd | Datblygu'r mesur yn unol â chanllawiau LIC | Yn mynd rhagddo ar gyfer adrodd am 2024/25<br>GWYRDD | Ydy |

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y dysgwyr ADY sy'n gadael Blwyddyn 11 ac yn pontio'n llwyddiannus o'r ysgol statudol i addysg, gwaith neu hyfforddiant. | Gwella (cynnydd) | 89% Carfan Blwyddyn 11 2021/22 208 allan o 233 | Cynnydd o'r llinell sylfaen | 93.3% 2022/23 Year 11 Cohort GWYRDD | Ydy |
| Canran y dysgwyr PYADd sy'n gadael Blwyddyn 11 ac yn pontio'n llwyddiannus o'r ysgol statudol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. | Gwella (cynnydd) | 92% Carfan Blwyddyn 11 2021/22 236 allan o 257 | Cynnydd o'r llinell sylfaen | 91.3% Carfan Blwyddyn 11 2022/23 MELYN | Na |
| Nifer yr adeiladau ysgol sy'n addas i'r diben gyda chategori cyflwr o A neu B – Cynradd | Gwella (cynnydd) | Cynradd A – 10 B – 42 C – 6 | Gostyngiad yn nifer yr adeiladau Categori C | Cynradd: A – 10 B – 43 C – 5 GWYRDD | Ydy |
| Nifer yr adeiladau ysgol sy'n addas i'r diben ac yn bodloni categori cyflwr A neu B - Uwchradd | Gwella (cynnydd) | Uwchradd A – 0 B – 9 C – 0 | Gostyngiad yn nifer yr adeiladau Categori C | Uwchradd A – 0 B – 9 C – 1 Un adeilad Categori C ychwanegol a chynnwys Uned Cyfeirio Disgyblion MELYN | Na |

1 COMG yn seiliedig ar gynnydd a wnaed tuag at y targed diwedd blwyddyn. Gweler tudalen 8am ddiffiniadau.

## GOSOD Y CYD-DESTUN

Er mwyn helpu i ddeall y darlun cyfredol ar gyfer pob blaenoriaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam rydym wedi cynnwys set o ddangosyddion cyd-destunol. Tueddiadau a materion lleol a chenedlaethol yw'r rhain y mae ein canlyniadau'n cyfrannu atynt. Mae'r rhain yn ddangosyddion sy'n gofyn am gydweithrediad ac integreiddiad ein partneriaid, sefydliadau allanol a chymunedau i wella, fodd bynnag disgwylir y bydd blaenoriaethau'r cyngor a'r gwaith sy'n sail iddynt yn effeithio ar y dangosyddion yn y tymor hir.

| DANGOSYDD CYD-DESTUNOL | BETH YW PERFFORMIAD DA? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL | DIWEDDARIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|
| Canran y plant (0-15) yn Wrecsam sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt | Gwella (gostyngiad) | 2022<br>13.9% Wrecsam<br>14.9% Cymru | 2023<br>16.1% Wrecsam<br>17.7% Cymru |
| Canran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | - | 2022/23<br>20.9% Wrexham<br>20.3% Wales | - |
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru). | Gwella (gostyngiad) | 2019<br>11.8% | Disgwylir y datganiad nesaf yn 2025/26 |
| Canran Dysgwyr Wrecsam yn ysgolion Wrecsam sy'n byw yn y 10% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru | Gwella (gostyngiad) | 2019<br>6 Wrexham LSOAs in 10% most deprived overall in Wales: 11.8% | Disgwylir y datganiad nesaf yn 2025/26 |
| Canran y plant (5 – 15) yn Wrecsam sydd â datganiad anghenion addysg arbennig ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. (lefel uchaf o gefnogaeth) | - | 2021/22<br>Cynradd<br>2.7% Wrecsam<br>2.0% Cymru<br>Uwchradd<br>2.9% Wrecsam<br>2.5% Cymru | 2022/23<br>Cynradd<br>1.9% Wrecsam<br>1.6% Cymru<br>Uwchradd<br>2.8% Wrecsam<br>2.2% Cymru |

| DANGOSYDD CYD-DESTUNOL | BETH YW PERFFORMIAD DA? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL | DIWEDDARIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|
| Nifer y plant a phobl ifanc a gafodd gwnsela fesul 1,000 o'r boblogaeth (10 -18) yn Wrecsam | - | 2021/22<br>35.9% Wrecsam<br>34.7% Cymru | 2022/23<br>38.3% Wrecsam<br>34.7% Cymru |
| Canran yr oedolion sydd wedi cymhwyso i lefel 2 neu uwch yn Wrecsam | Gwella (cynnydd) | 2022<br>86.6% Wrecsam<br>86.6% Cymru | 2023<br>86.6% Wrecsam<br>87.4% Cymru |
| Canran y trigolion arferol 16 oed a throsodd heb unrhyw gymwysterau yn Wrecsam | Gwella (gostyngiad) | 2021<br>20.9% Wrecsam<br>19.9% Cymru | Dim i'w ryddhau ar unwaith – data cyfrifiad |
| Canran y boblogaeth 25-64 oed sydd â chymwysterau lefel gradd yn Wrecsam | Gwella (cynnydd) | 2021<br>34.2% Wrecsam<br>36.7% Cymru | Dim i'w ryddhau ar unwaith – data cyfrifiad |
| Cyfradd cwblhau cyffredinol Lefel A a chymwysterau galwedigaethol yn ôl awdurdod lleol cyfeiriad cartref y dysgwr yn Wrecsam | Gwella (cynnydd) | 2021/22<br>*Lefel A*<br>80% Wrecsam<br>81% Cymru<br>*Galwedigaethol*<br>85% Wrecsam<br>84% Cymru | 2022/23<br>*Lefel A*<br>77% Wrecsam<br>75% Cymru<br>*Galwedigaethol*<br>86% Wrecsam<br>84% Cymru |

## HYBU IECHYD A LLES DA (GAN GANOLBWYNTIO AR WASANAETHAU CYMDEITHASOL AC IECHYD MEDDWL DA)

### COMG CYFFREDINOL – ASESIAD CYFFREDINOL MELYN

Rydym yn cydnabod bod iechyd a lles da yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn ein cymunedau yn gallu cael mynediad at y cyfleoedd bywyd gorau sydd ar gael iddynt. Mae galluogi a chefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i fod yn iach yn feddyliol ac yn gorfforol ac yn wydn yn hollbwysig i fyw bywydau annibynnol heb anghydraddoldeb.

Mae ein cyflawniadau allweddol isod yn manylu ar ble y bu perfformiad cyson da mewn llawer o feysydd, a gwelliant mewn rhai meysydd allweddol, megis nifer y plant sy'n derbyn gofal, amseroedd aros am therapi galwedigaethol a nifer y bobl sy'n aros am ofal yn y cartref. Fodd bynnag, rydym yn derbyn bod rhai meysydd gwaith pwysig y mae angen canolbwyntio arnynt wrth symud ymlaen i barhau â'n taith o welliant. Mae'r rhain yn cynnwys; recriwtio gofalwyr maeth, nifer y plant sy'n cael eu gweld ar eu pen eu hunain fel rhan o'u hasesiad a chynadleddau amddiffyn plant yn cael eu cynnal o fewn yr amserlen. Rydym yn parhau i fonitro'r meysydd gwaith hyn yn agos ac mae gennym gynlluniau cadarn ar waith i gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen.

Yn 2023/24 rydym wedi bod yn blaenoriaethu ein gwaith i integreiddio a thrawsnewid atal a chymorth cynnar, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ein cymunedau'n gallu cael mynediad at y cymorth cywir cyn gynted â phosibl. Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ddarpariaeth effeithiol wrth y drws ffrynt gan gynnwys gwell gwybodaeth ac arweiniad ar y cyswllt cyntaf. I'r rhai sydd angen gwasanaethau statudol, rydym yn gweithio i wella ein llwybrau at y gofal a'r cymorth cywir. Rydym eisiau Bwrdeistref Sirol lle mae pob plentyn ac oedolyn diamddiffyn yn ddiogel, yn gallu byw bywyd gyda chyfleoedd ac yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed.

Mae iechyd meddwl yn effeithio ar sut rydym yn ymdopi â sefyllfaoedd bob dydd, a ydym yn gwneud dewisiadau iach a sut rydym yn ymwneud ag eraill. Rydym yn datblygu ein gwasanaethau i ymateb i'r galw cynyddol a'r anghenion newidiol am gymorth iechyd meddwl, gan ein bod yn cydnabod pa mor hanfodol yw hyn ar bob cam o fywyd. Trwy roi blaenoriaeth i iechyd meddwl o fewn y flaenoriaeth hon gan y cyngor fe wnaethom ymrwymiad i wella ein darpariaeth. Rydym yn cydnabod bod gennym waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod pobl sydd angen cymorth gyda'u hiechyd meddwl yn gallu cael mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Byddwn yn parhau i weithio tuag at welliannau yn y maes hwn trwy weithio mewn partneriaeth ar draws ein gwasanaethau a sefydliadau cymunedol. Gyda'n partneriaid byddwn yn adeiladu ar welliannau a wnaed yn 2023/24 o ran atal a chymorth cynnar, er mwyn lleihau'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu cyn iddynt ddod yn fwy cymhleth.

O ystyried y cynnydd a wnaed yn 2023/24 a'r meysydd lle nad oedd cynnydd yn ôl y disgwyl, yn gyffredinol rydym wedi graddio blaenoriaeth y cyngor hwn yn felyn, sy'n golygu ein bod wedi gwneud cynnydd da tuag at ein canlyniadau cytûn a gwelwyd tystiolaeth o welliant ar draws sawl mesur perfformiad allweddol.

Er mwyn gweld y canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt yn y flaenoriaeth hon, Ymwelwch â'n tudalen flaenoriaeth Cynllun y Cyngor; Hybu Iechyd a Lles Da (gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl da).

## PRIF GYFLAWNIADAU

### LLAI O BLANT SY'N DERBYN GOFAL TRWY YMYRRAETH GYNNAR EFFEITHIOL

- Mae niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal o fewn targedau trothwy, gyda chefnogaeth nifer o ymyriadau i gefnogi teuluoedd gyda chymorth cynnar effeithiol.
- Adolygwyd ataliaeth a chymorth cynnar i deuluoedd gyda datblygiad ffyrdd amgen o weithio. Mae hyn wedi llwyddo i alluogi teuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr amser iawn.
- Mae lefel yr ymyriadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu. Sydd wedi darparu mwy o opsiynau ar gyfer darparu sefydlogrwydd, gan alluogi plant i adael y system ofal lle mae'n ddiogel i wneud hynny.
- Mae cryfhau prosesau amddiffyn plant yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol wedi'i gefnogi gan ddull diogelu sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae hyn wedi lleihau nifer y plant sy'n dod i ofal, gan gael effaith gadarnhaol ar nifer y plant sy'n derbyn gofal.

### GOFAL MAETH SEFYDLOG A LLEOLIADAU LLETYA Â CHEFNOGAETH, YN NES AT Y CARTREF

- Mae canran y plant sydd wedi symud lleoliad tair gwaith neu fwy eleni wedi bod yn gyson isel ac ar darged, gan gynnig rhywfaint o sefydlogrwydd o fewn lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal.
- Mae'r Prosiect Gofal yn Nes at y Cartref yn parhau i brynu ac addasu eiddo i ddiwallu anghenion plant ag anghenion gofal cymhleth. Mae llawer o'r plant hyn sy'n dod i mewn i'r darpariaethau newydd yn dod o leoliadau y tu allan i'r sir, gan gefnogi dychwelyd adref ac yn ail-gydbwyso'r agenda gofal. Mae gwaith yn parhau gyda chynlluniau i'w gwblhau ar ddau eiddo arall o fewn y flwyddyn nesaf.
- Fel rhan o'r Prosiect Gofal yn Nes at y Cartref, rydym wedi cymryd rhan mewn menter ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint i agor cartref lleoliad brys/therapiwtig, addysgol a therapi cyfun.
- Mae adolygiad o gyfraddau maethu ar gyfer gofalwyr maeth wedi'i gwblhau i gefnogi ein recriwtio'n lleol, a fydd, gobeithio, yn annog mwy o ofalwyr maeth yn dod ymlaen.
- Rydym wedi cyflwyno ein Model Cefnogwyr Gofalwyr Maeth, gan wasanaethu fel dewis amgen i ofal preswyl i blant ag anghenion cymhleth. Mae'r model newydd yn cefnogi plant mewn cartref teuluol, tra'n cynnig cymorth 7 diwrnod yr wythnos i ofalwyr maeth

### Y GOFAL A'R GEFNOGAETH GYWIR, GOFAL CARTREF, AILALLUOGI A THERAPI GALWEDIGAETHOL

- Trwy gomisiynu darparwr allanol rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y rhestr aros ar gyfer Asesiad Therapi Galwedigaethol Statudol, gyda 600 o Atgyfeiriadau yn cael eu rhoi ar gontract allanol yn llwyddiannus. Mae datblygiad y Clinig Therapi Galwedigaethol newydd ar gyfer mân offer a bathio yn gweld canlyniadau cadarnhaol o ran lleihau rhestrau aros.

- Rydym wedi gwneud gwelliannau enfawr yn ein cynnig Therapi Galwedigaethol eleni. Rydym wedi lleihau ein rhestr aros 70%, gan arwain at amseroedd aros a chanlyniadau gwell i ddinasyddion.
- Mae nifer gyson o ofalwyr di-dâl yn cael eu nodi a'u cofrestru i dderbyn gwybodaeth, arweiniad a chymorth. Gobeithiwn weld y ffigwr hwn yn parhau i dyfu a chau'r bwlch rhwng ein niferoedd cofrestredig a'r niferoedd a gesglir trwy ddata'r cyfrifiad fel y gallwn sicrhau bod pob gofalwr yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.
- Mae ein Tîm Ailalluogi wedi parhau i helpu niferoedd cadarnhaol o ddinasyddion i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt i fod mor annibynnol â phosibl.
- Mae'r Polisi Gofal Cartref wedi'i ddatblygu ac mae wedi'i sefydlu'n llwyddiannus. Bydd y polisi yn sicrhau bod pobl yn ein cymunedau sydd angen gofal yn y cartref yn derbyn y gefnogaeth gywir.
- Mae gwaith i leihau amseroedd aros am ofal cartref yn parhau i weld gwelliannau cadarnhaol. Gwelodd y niferoedd gynnydd bychan disgwyliedig tuag at ddiwedd y flwyddyn oherwydd cynnydd yn y galw yn y gaeaf, ond mae amseroedd aros yn gyffredinol yn gwella.

### IECHYD MEDDWL DA I BAWB, TRWY ATALIAETH EFFEITHIOL A CHYMORTH CYNNAR

- Cymerodd pob ysgol uwchradd ran yn llwyddiannus yn arolwg iechyd meddwl pobl ifanc. Bydd canlyniadau'r arolwg yn galluogi ysgolion i gynllunio ymyriadau cynnar priodol i gefnogi pobl ifanc sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl.
- Mae gwasanaeth cwnsela'r awdurdod lleol yn parhau i ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc mewn ysgolion ac yn y gymuned.
- Mae pob ysgol yn parhau i gael cymorth i wreiddio'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles. Cefnogir ysgolion yn unigol gyda chynlluniau pwrpasol yn cael eu datblygu gyda phob ysgol.
- O fewn gofal cymdeithasol rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddiant gwell wedi'i lywio gan drawma i staff, wedi'i gefnogi gan gynllun gweithredu 5 mlynedd a fydd yn datblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma ar draws yr adran gofal cymdeithasol.
- Mae'r Hwb Lles yn fenter a arweinir gan bartneriaeth sy'n cael ei sbarduno gan atal, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn y boblogaeth a phenderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd a lles. Agorodd yr Hwb Lles i'r cyhoedd ym mis Hydref 2022 ac ers hynny mae wedi gweld cynnydd cynyddol yn nifer y gweithgareddau a gynhelir bob mis.
- Mae'r Hwb Lles yn darparu nifer o ystafelloedd a mannau agored i'w defnyddio gan amrywiaeth o sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau atal a chymorth cynnar. Mae gweithgareddau'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gryfderau i ddarparu'r gwasanaethau sydd o bwys i'n dinasyddion.
- Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gweithio ar ddarpariaeth newydd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam i ddiwallu

anghenion pobl â chyflyrau iechyd meddwl a chefnogi mwy o ddinasyddion yn nes at adref. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r agenda ail-gydbwyso gofal.

- Mae Hyfforddi Ffordd o Fyw i Oedolion yn wasanaeth 1-i-1 a gynigir i bobl Wrecsam sy'n barod i ymgysylltu â nodau sy'n canolbwyntio ar adferiad ac sydd wedi'i deilwra i anghenion unigol. Mae'n canolbwyntio ar y dyfodol, yn hytrach na gwneud diagnosis o'r gorffennol, a'i nod yw cynnal adferiad o broblemau iechyd meddwl a gwella lles cyffredinol.

### GWASANAETHAU CYMDEITHASOL O ANSAWDD, Y GOFAL CYWIR AR YR AMSER CYWIR, GYDA CHEFNOGAETH Y BWRDD GWELLA GOFAL CYMDEITHASOL

- Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2023 ymwelodd Arolygiaeth Gofal Cymru ag Adran Gofal Cymdeithasol Wrecsam i adolygu cynnydd yr awdurdod lleol yn erbyn meysydd yr oedd angen eu gwella. Roedd yr adolygiad yn cydnabod yr heriau a brofwyd ac yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud gan arwain at ddatblygiadau i arferion a chanlyniadau gwell i blant ac oedolion. Adroddodd yr adolygiad:
    - Mae gwybodaeth perfformiad ac archwiliadau sicrwydd ansawdd yn parhau i yrru gwelliannau yn y gwasanaethau plant.
    - Mae datblygiadau cadarnhaol wedi'u rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â rhestrau aros ac i sicrhau fod model cynaliadwy o ddarpariaeth wedi'i sefydlu er mwyn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.
    - Mae'r tîm dyletswydd argyfwng gwasanaethau cymdeithasol yn darparu ymateb amserol a chymesur i argyfyngau sy'n digwydd tu allan i oriau agor arferol.
    - Mae ymarferwyr yn datblygu perthnasau gweithio proffesiynol gyda phobl, wedi'i adeiladu ar gydweithredu a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig.
- Parhaodd y daith wella Gofal Cymdeithasol i gael ei chefnogi drwy'r Bwrdd Gwella a Thrawsnewid Carlam newydd (y Bwrdd Gwella Gofal Cymdeithasol yn flaenorol). Bydd cwmpas newydd y Bwrdd yn monitro cynnydd set o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer y ffocws Gwella Gofal Cymdeithasol i Oedolion a ffocws Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Plant a Gofal Cymdeithasol Oedolion.
- Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Thîm Prosiect RITA (Gweithgaredd Therapi Rhyngweithiol Atgofion) gymeradwyaeth uchel yng ngwobrau diweddar Gofal Cymdeithasol Cymru. Canmolwyd y tîm am y gwaith sy'n digwydd yn Wrecsam i roi'r person ar flaen y gad o ran darparu gofal ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru drwy ddefnyddio RITA fel galluogwr digidol i gefnogi pobl â dementia.
- Cafodd ein Porth Lles, sy'n galluogi pobl i adrodd yn hawdd am faterion iechyd a gofal cymdeithasol plant, ei enwi'n enillydd y categori Cyflawniad Digidol yng Ngwobrau Sector Cyhoeddus Granicus UK.

### LLAIS DEFNYDDWYR GWASANAETH YN LLUNIO GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL

- Mae nifer y dinasyddion sy'n derbyn taliad uniongyrchol yn gyson dda. Mae hyn yn gadarnhaol i ddinasyddion gael dewis a rheolaeth ar y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Mae gennym bellach ddarparwr newydd yn ei le ar gyfer hunan-eiriolaeth ar Ôl Troed Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru. Rydym hefyd yn comisiynu cynnig hyfforddiant hunaneiriolaeth. Mae hunan-eiriolaeth yn galluogi pobl i siarad drostynt eu hunain yn hytrach na dibynnu ar eraill a chael yr hyder i ddweud pan nad ydynt yn meddwl bod rhywbeth yn iawn.
- Rydym wedi cynnal ymgynghoriad helaeth gyda gofalwyr di-dâl ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam trwy arolygon a sioe deithiol i fwydo i mewn i gomisiynu darparwr newydd i weithio gyda, a chefnogi ein gofalwyr di-dâl.
- Mae arolygon Heneiddio'n Dda wedi'u cynnal dros y 12 mis diwethaf i gasglu barn pobl dros 50 oed ynghylch darparu gwasanaethau yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod llais y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei glywed wrth i ni symud ymlaen gyda'n gilydd.
- Mae'r Ymgyrch Gwrando Dementia newydd ddod i ben ar draws Gogledd Cymru, gydag ymgynghoriad wedi'i dargedu a digwyddiadau yn Wrecsam. Arweinwyd gan ein Swyddog Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ar gyfer Dementia.
- Mae ein tîm gofal cymdeithasol plant yn parhau i sicrhau bod llais plant a phobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn. Mae defnyddio'r ap mind of my own yn galluogi plant i gyfathrebu â'r adran gan ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu amgen.

### DIOGELU PRIODOL I BAWB TRWY GYDWEITHIO

- Mae nifer yr atgyfeiriadau oedolion mewn perygl / diogelu oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol yn parhau i fod yn gyson uchel. Fodd bynnag, mae gennym darged o hyd i wella yn y maes hwn i gyflawni 100%.
- Mae gofal cymdeithasol plant wedi sefydlu model diogelu sy'n seiliedig ar risg drwy'r gwasanaeth cyfan, sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant.

## HERIAU A SYMUD YMLAEN

Mae'r cyngor yn wynebu rhagolygon economaidd heriol dros y tair blynedd nesaf. Mewn ymateb, byddwn yn canolbwyntio ar wneud arbedion lle bo modd a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i redeg gwasanaethau cost effeithiol sy'n cefnogi ein cymunedau tra'n sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau cywir ar yr amser cywir. Wrth wneud hynny rydym yn cydnabod lle nad yw perfformiad wedi bod yn ôl y disgwyl a'r heriau parhaus y mae angen inni ganolbwyntio arnynt fel rhan o'r daith hon, gan gynnwys:

- Mae recriwtio a chadw gofalwyr cyflogedig yn parhau i fod yn her. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau darparwyr yn cael eu hailstrwythuro i sicrhau bod y staff presennol yn cael eu defnyddio i'r eithaf. Bydd angen recriwtio pellach o hyd i fodloni gofynion y gwasanaeth.

- Rhagwelir y bydd cyfran y bobl hŷn yn y boblogaeth yn parhau i gynyddu tan 2040. Ar yr un pryd, disgwylir i'r gyfran o bobl rhwng 16 a 64 mlwydd oed, y gweithlu, barhau i leihau. Mae disgwyl i'r newidiadau ddechrau cysoni erbyn 2040.
- Mae'r newid hwn i strwythur y boblogaeth yn cynnig cyfleoedd a heriau o ran darparu gofal a gwasanaethau cymorth. Mae cynnydd sylweddol yn nifer y bobl hŷn sy'n dod i'r adran damweiniau ac achosion brys sy'n effeithio ar gynnydd yn y galw o fewn gofal cymdeithasol am asesiad a darpariaeth statudol. Mae hyn yn creu her ychwanegol mewn gwasanaeth sydd eisoes dan bwysau. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cynllunio yn y dyfodol.
- Mae recriwtio gofalwyr maeth yn parhau i fod yn faes gwaith heriol; rydym yn gweithio gyda Maethu Cymru gan fod hwn yn fater cenedlaethol cydnabyddedig. Mae digwyddiadau recriwtio a marchnata parhaus i hyrwyddo cyfleoedd o fewn maethu. Mae'r prosiect Gofal yn Nes at y Cartref a phrosiectau cyfalaf eraill yn parhau i wella mynediad at wasanaethau lleol i ddinasyddion Wrecsam, gan gefnogi pobl i aros ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam neu ddychwelyd i'r Fwrdeistref Sirol.
- Nid yw niferoedd y plant sy'n cael eu gweld ar eu pen eu hunain fel rhan o'u hasesiad yn cyrraedd y targedau a osodwyd ar hyn o bryd, mae timau'n cydweithio i fynd i'r afael â hyn. Bu pryderon ein bod wedi bod yn tan-adrodd am y data hwn ac mae gwaith ar y gweill i ddeall a diffinio'n glir sut y caiff hyn ei adrodd yn effeithiol ac yn gywir.
- Mae gofal cymdeithasol plant ar fin lansio 'cynadleddau amddiffyn plant effeithiol,' sy'n defnyddio dull diogelu sy'n seiliedig ar gryfderau i wella ein prosesau.
- Mae'r galw ar y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn parhau'n uchel gyda chymhlethdod yr achosion yn parhau i fod yn uwch. Mae pob ysgol yn parhau i gael cymorth i wreiddio'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles.
- Rydym yn datblygu Strategaeth Gyfranogi Gofal Cymdeithasol i gryfhau llais defnyddwyr gwasanaethau o fewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

O fewn blwyddyn nesaf Cynllun y Cyngor rydym am barhau ar ein taith welliant i wella'r gefnogaeth a gynigir i bobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam, i greu'r amodau i wella gwydnwch, iechyd a lles. Mae hyn yn golygu bod pobl yn derbyn y gofal a chefnogaeth cywir, yn y lle cywir, ar yr amser cywir. Rydym am ymrwymo i wella ein gwasanaethau'n barhaus drwy wrando ar anghenion poblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'u deall yn y dyfodol a thrwy greu gwasanaethau sy'n gallu ymateb i heriau. Rydym eisiau gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac sy'n gwrando ar lais plant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Wrth wneud hyn rydym yn cydnabod y pwysigrwydd o ddatblygu ein gwaith gyda'n partneriaid a sut y mae cael mynediad cynnar i wasanaethau o safon uchel yn gallu lleihau'r angen am ymyraethau acíwt yn y dyfodol. Rydym am i'n gwasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd a lles ddiwallu anghenion y rhai sy'n eu defnyddio.

## EIN MESURAU CANLYNIADAU

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant sy'n derbyn gofal | Cynnal | 352 (diwedd mis Mawrth 2023) | Rhwng 300 and 340 | 308 GWYRDD | Ydy |
| Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal - darpariaeth breswyl fewnol | Gwella (cynnydd) | 2% | 4% | 1.34% COCH | Na |
| Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal - lleoliadau maeth mewnol | Gwella (cynnydd) | 19% | 21% | 18.24% COCH | Na |
| Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi symud lleoliad dair gwaith neu fwy | Cynnal | 6.15% | 6% | 3.12% (exceeded target) GWYRDD | Ydy |
| Nifer sy'n aros am ofal yn y cartref | Gwella (gostyngiad) | 22 o bobl (diwedd mis Mawrth 2023) | Llai na 25 o bobl | 25 MELYN | Na |
| Nifer sy'n aros am asesiad Therapi Galwedigaethol statudol | Gwella (gostyngiad) | 1002 Feb 2023 | Llai na 402 o bobl | 374 GWYRDD | Ydy |
| Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd er mwyn lleihau, lliniaru neu gynnal yr angen am gefnogaeth | Gwella (cynnydd) | Cefnogwyd 234 o ddinasyddion | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | 402 GWYRDD | Ydy |
| Sgôr gymedrig lles meddyliol ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn Wrecsam | Gwella (cynnydd) | 2021/2022 Sgôr gymedrig Wrecsam - 23 Cymru - 23 | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | Arolwg data cyflawn ar gael 2024/25 | Ddim yn cael ei adrodd |

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN / CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Lles emosiynol gwell i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth cwnsela | Cynnal | Gwahaniaeth: 6.5 (Dechrau:16.50, Diwedd:10.00) | Cynnal | Gwahaniaeth 6.5 (Dechrau: 18.00, Diwedd: 11.50) Adroddwyd yn ôl-weithredol GWYRDD | Ydy |
| Canran y plant a welwyd eu hunain fel rhan o'u hasesiad. | Gwella (cynnydd) | 56% | 80% | 72.53% COCH | Na |
| Canran y plant sy'n defnyddio'r Ap Mind of my Own. | Gwella (cynnydd) | 2% o blant sy'n derbyn gofal (diwedd mis Mawrth | 3% o blant sy'n agored i CSC | 4.31% GWYRDD | Ydy |
| Nifer y plant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant sydd wedi'u cofrestru'n flaenorol yn ystod y 12 mis blaenorol. | Cynnal | 22 Cyfartaledd y chwarter: 6 | 22 | 9 (wedi rhagori ar y targed) GWYRDD | Ydy |
| Canran yr atgyfeiriadau oedolion mewn perygl (diogelu oedolion) a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol (7 diwrnod) | Cynnal | 97% | 97% | 93.61% GWYRDD | Na |

1 COMG yn seiliedig ar gynnydd a wnaed tuag at y targed diwedd blwyddyn. Gweler tudalen 8am ddiffiniadau.

## GOSOD Y CYD-DESTUN

Er mwyn helpu i ddeall y darlun cyfredol ar gyfer pob blaenoriaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam rydym wedi cynnwys set o ddangosyddion cyd-destunol. Tueddiadau a materion lleol a chenedlaethol yw'r rhain y mae ein canlyniadau'n cyfrannu atynt. Mae'r rhain yn ddangosyddion sy'n gofyn am gydweithrediad ac integreiddiad ein partneriaid, sefydliadau allanol a chymunedau i wella, fodd bynnag disgwylir y bydd blaenoriaethau'r cyngor a'r gwaith sy'n sail iddynt yn effeithio ar y dangosyddion yn y tymor hir.

| DANGOSYDD CYD-DESTUNOL | BETH YW PERFFORMIAD DA? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL | DIWEDDARIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|
| Canran yr Oedolion yn Wrecsam sydd mewn iechyd da neu dda iawn | Gwella (cynnydd) | 2021/22<br>71.6% Wrecsam<br>72.7% Cymru | 2022/23<br>Cymru 69.1%<br>Wrecsam 74.1% |
| Disgwyliad Hyd Oes Iach ar Enedigaeth i Drigolion Wrecsam | Gwella (cynnydd) | (2018-2020)<br>Wrecsam: Gwrywod 63.77,<br>Benywod 63.26<br>Cymru: Gwrywod 61.5,<br>Benywod 62.4 | Aros am ryddhau data yn dilyn adolygiad ALI |
| Sgôr gymedrig lles meddwl ar gyfer oedolion 16+ oed yn Wrecsam | Gwella (cynnydd) | 2018/19<br>50.92 Wrecsam<br>51.37 V | 2022/23<br>TBC Wrecsam<br>48.2 Cymru |
| Canran y bobl sy'n cytuno bod gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal | - | 2021/22<br>54.1% Wrecsam<br>63.9% Cymru | Dim diweddariad pellach |
| Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2022, fesul 10,000 y boblogaeth o dan 18 oed | Gwella (gostyngiad) | 2022<br>132 Wrecsam<br>114 Cymru | 2023<br>126 Wrecsam<br>116 Cymru |

# CEFNOGI GWEITHLU TRA MEDRUS A BRWDFRYDIG, SY'N CANOLBWYNTIO AR DDARPARU GWASANAETHAUANAETHAU

## COMG CYFFREDINOL – ASESIAD CYFFREDINOL MELYN

Yng Nghynllun newydd y Cyngor 2023-28, fe wnaethom gyflwyno blaenoriaeth cyngor newydd i ganolbwyntio ar ddarparu gweithlu medrus ac brwdfrydig sy'n gallu darparu'r gwasanaethau y mae ein cymunedau eu hangen a'u heisiau. Mae gweithlu brwdfrydig a medrus yn lleihau trosiant, yn cynyddu cynhyrchiant ac yn denu a chadw unigolion sydd â'r sgiliau a'r profiad sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a'r cymunedau o fewn y rhain. Felly ym mlaenoriaeth newydd y cyngor rydym wedi canolbwyntio ar ddiwylliant rheoli pobl cryf, lles ein gweithwyr, bod yn gyflogwr o ddewis a hyrwyddo cydraddoldeb a chyfleoedd.

Ym Mlwyddyn 1 Cynllun y Cyngor rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da tuag at ein canlyniadau, yn erbyn amgylchedd cynyddol heriol; yn arbennig gwydnwch ariannol a heriau recriwtio o fewn rolau swyddi anodd eu llenwi. Ar ôl pandemig mae cyd-destun y gweithlu yn genedlaethol wedi newid yn sylweddol, gan arwain at heriau i lawer o sefydliadau gan gynnwys:

- Niferoedd uchel sydd wedi gadael gwaith ers 2019.
- Newid dewisiadau bywyd personol.
- Y rhai sydd eisiau gweithio'n hybrid a/neu hyblyg, a'r gallu i weithio ar draws ardal ddaearyddol fwy.
- Prinder sgiliau ar gyfer rhai rolau yn y farchnad lafur ac anawsterau recriwtio a chadw staff.
- Cyflog a chynnydd mewn costau byw ac anghydfodau diwydiannol.

Felly, trwy sicrhau ein bod yn parhau i hyrwyddo ein hagwedd fodern a hyblyg at waith, ein buddion gweithwyr, ein gwerthoedd ac addasu ein harferion recriwtio, byddwn yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ddenu a chadw'r ymgeiswyr cywir i rolau o fewn y cyngor.

Rydym yn cydnabod mai ein gweithlu yw ein hased mwyaf a dyma ein hadnodd pwysicaf i gyflawni ein blaenoriaethau a'n nodau a nodir yn ein Cynllun y Cyngor. Ym Mlwyddyn 1 Cynllun y Cyngor rydym wedi gwneud gwelliannau o ran rheoli pobl a chefnogi iechyd a lles ein gweithwyr. Rydym wedi lleihau ein cyfradd absenoldeb oherwydd salwch a gefnogir drwy ein hymrwymiad i les a'r gyfres o fentrau lles rydym yn eu cynnig i'n gweithlu, a gydnabyddir drwy ail-achrediad Gwobr Aur y Safon Iechyd Corfforaethol yn 2023. Fe wnaethom ganolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau a'r cyfleoedd ar gyfer y gweithlu ac mae 94.7% o'r ymgeiswyr a ddechreuodd ar y cyfleoedd hyfforddi niferus a gynigiwyd gennym drwy ein cynllun 'Meithrin Ein Talent Ein Hunain' yn dal ar y trywydd iawn i gwblhau neu wedi cwblhau eu cymhwyster.

Gan edrych ymlaen at 2024/25, byddwn yn parhau i fod yn flaengar, gan weithio tuag at liniaru heriau'r gweithlu er mwyn sicrhau gweithlu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys dull rhagweithiol o nodi a gweithredu effeithlonrwydd o fewn ein holl wasanaethau a deall yr effaith ar ein gweithlu a gwasanaethau.

Er mwyn gweld y canlyniadau yr ydym yn gweithio tuag atynt yn y flaenoriaeth hon, Ymwelwch â'n tudalen flaenoriaeth Cynllun y Cyngor; Cefnogi Gweithlu Tra Medrus a Brwdfrydig, sy'n Canolbwyntio ar Ddarparu Gwasanaethau.

## PRIF GYFLAWNIADAU

### DIWYLLIANT RHEOLI POBL

- Mae gan y cyngor ddiwylliant rheoli pobl cryf ac mae trefniadau ar waith i gefnogi lles gweithwyr a rheoli absenoldeb salwch yn effeithiol, gan arwain at well presenoldeb a llai o absenoldebau oherwydd salwch. Mae ein cyfradd absenoldeb ar gyfer eleni wedi gostwng o'r un cyfnod y llynedd.
- I gefnogi ein rheolwyr a'n harweinwyr o fewn y cyngor, lansiwyd rheolaeth fodiwlaidd newydd ym mis Medi 2023. Mae hwn yn darparu hyfforddiant a datblygiad i ddarpar reolwyr, rheolwyr newydd a rheolwyr presennol sydd angen hyfforddiant gloywi.
- Cytunwyd ar ein Strategaeth Pobl newydd hyd at 2028 a bydd yn cael ei chyhoeddi a'i rhannu dros yr ychydig fisoedd nesaf. Mae ein Strategaeth Pobl yn sail i'r diwylliant yr ydym yn ymdrechu i'w gyflawni trwy wreiddio ein gwerthoedd. Mae ein gwerthoedd wedi'u hadolygu gan gynnwys cyfraniadau gan ein Harweinwyr a'u timau ac wedi'u hailddiffinio i adlewyrchu ffordd newydd o weithio yn y cyngor.
- Bydd y Strategaeth Pobl yn dod â diwylliant a gwerthoedd, strwythur a phroses, perfformiad, adborth a datblygiad, arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar bobl a rheolaeth dda ynghyd i ddarparu ein gwasanaethau i gefnogi gweledigaeth y cyngor.

### LLES GWEITHWYR

- Mae nifer yr ymadawyr wedi gostwng gan 68, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
- Mae'r cyngor yn rhoi lefel uchel o bwysigrwydd ar fentrau lles gweithwyr, ac yn gweld hyn yn flaenoriaeth ar draws yr holl wasanaethau, wedi'i gefnogi gan ystod o fentrau iechyd a lles corfforaethol. Mae enghreifftiau ar gyfer 2023/24 yn cynnwys:
    - Rhaglen Cymorth i Weithwyr;
    - Digwyddiad iechyd a lles blynyddol ym mis Tachwedd yn yr Hwb Llesiant;
    - Gweminarau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn yn ymdrin ag iechyd corfforol, meddyliol ac ariannol a gweminarau cyhoeddusrwydd gan sefydliadau allanol gan gynnwys Gofal yn Gyntaf, Gwasanaeth Arian a Phensiynau, Credyd Cambrian a Gofalwr Cymru;
    - Cyhoeddi bwletinau lles rheolaidd sy'n ymdrin ag ystod lawn o eitemau iechyd a lles ariannol, meddyliol a chorfforol;
    - Ymgyrchoedd Rhithiol gan gynnwys ymwybyddiaeth gamblo, Amser i Siarad blynyddol, Fy Stori, ymwybyddiaeth haul blynyddol a bwyta'n iach;
    - Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol wedi datblygu ystod o sgriptiau testun rheolwyr i alluogi rheolwyr i gefnogi'r digwyddiadau rhithiol hyn trwy gyfarfodydd tîm;
    - Lansio Caffi Gofalwyr Di-dâl a Chaffi Menopos;

  - Mae ein Hyrwyddwyr Iechyd a Lles/ Iechyd Meddwl yn parhau i dyfu mewn cryfder a hyder wrth iddynt gefnogi gweithwyr yn y gweithlu; ac
  - Mae dogfen Canllawiau Ariannol ar gael i weithwyr gael eu cyfeirio at gymorth a chefnogaeth.
- Yn 2023 cawsom gydnabyddiaeth am y gwaith rydym yn ei ddarparu ar Iechyd a Lles a chawsom ail-achrediad i gynnal ein Gwobr Aur Safon Iechyd Corfforaethol. Er bod y dyfarniad hwn bellach wedi dod i ben, mae'r llwyddiant hwn yn darparu safon wreiddiedig o fewn y cyngor ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Roedd adroddiad Cymru Iach ar Waith yn cynnwys nifer o sylwadau cadarnhaol ac mae rhai dyfyniadau ohonynt wedi'u cynnwys isod:

  *"Mae ethos a diwylliant lles yng Nghyngor Wrecsam yn gynyddol a chynhwysfawr, a bellach wedi esblygu i gynnwys blaenoriaethau fel arweinyddiaeth dosturiol, gan gynnal lles gweithlu sy'n heneiddio a lles ariannol".*

  *"Mae'n werth nodi yn arbennig fod lles yn uchel ar raglen yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r Aelodau Etholedig, o ran cefnogaeth i fentrau a gweithgareddau fel y digwyddiad Amser i Siarad, ond hefyd o ran amser ac egni sydd wedi'i neilltuo i greu isadeiledd cadarn i les staff".*

  *"Mae lles wrth wraidd y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu, a oedd yn glir iawn wrth ysgrifennu'r cais ysgrifenedig hwn ar gyfer yr asesiad, ac yn y cyfarfodydd asesu llawn gwybodaeth eu hunain ac o'r enghreifftiau o straeon personol a gafodd eu rhannu gyda'r asesydd".*

  *"Mae yna ymrwymiad diriaethol i les meddyliol yng Nghyngor Wrecsam, sy'n canolbwyntio'n sylweddol ar atal."*

## CYFLOGWR O DDEWIS

- Mae'r cyngor yn 'gyflogwr o ddewis' sy'n gallu recriwtio a chadw gweithlu amrywiol a chynaliadwy, gyda dull modern o weithio sydd wedi'i ymgorffori ar draws y cyngor cyfan ynghyd â fframwaith o wobrau a buddion gweithwyr.
- Mae'r cyngor yn parhau i dyfu ein talent ein hunain o fewn y sefydliad trwy barhau i ddatblygu'r Cynllun Prentisiaeth Corfforaethol, gan gynnwys creu Cynllun Hyfforddeiaeth o fewn Adran yr Amgylchedd a Thechnegol a chynlluniau datblygu eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau megis Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol. Bydd y cynllun hwn yn parhau i dyfu a chael ei ddatblygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i gadw a datblygu ein gweithwyr presennol a recriwtiaid newydd.

## Y GYMRAEG

- Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn parhau i ffynnu o fewn ein gweithlu a'n cymunedau ac yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi'n weithredol i wella ein recriwtio o siaradwyr Cymraeg o fewn y cyngor, ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ac i fynd i'r afael â chamau gweithredu blaenorol yn adroddiadau Archwilio Cymru.
- Mae ein Ffurflen Rheoli Swyddi Gwag a'n dogfennau Asesiad Sgiliau Diwygiedig wedi'u diweddaru i gynnwys geiriad safonol diwygiedig i'w defnyddio mewn hysbysebion swyddi i ddisgrifio'r sgiliau Cymraeg sydd eu

hangen ar gyfer y rôl. Mae hyn yn cynnwys opsiwn i dderbyn ceisiadau gan ymgeiswyr di-Gymraeg ar yr amod eu bod yn dysgu Cymraeg i'r lefel y cytunwyd arni.

- Bydd y geiriad safonol newydd yn y dogfennau recriwtio yn sicrhau bod rheolwyr recriwtio yn mynd ati i adolygu anghenion iaith Gymraeg eu gwasanaeth, yn cynnal tystiolaeth o asesiad o anghenion iaith ac yn pennu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen cyn i'w swyddi gael eu hysbysebu.

- Mae'r modiwl e-ddysgu newydd Canllawiau Gwasanaethau Dwyieithog i Reolwyr ac Arweinwyr Tîm yn cynnwys adran ar Gynllunio'r Gweithlu.

- Mewn ymdrech i ddenu mwy o ymgeiswyr ar gyfer ein swyddi gwag 'Cymraeg yn Hanfodol' a 'Cymraeg yn Ddymunol,' mae Swyddog Strategol y Gymraeg mewn partneriaeth ag aelodau Fforwm Sirol yr Iaith Gymraeg wedi ffilmio cyfres o fideos hyrwyddo gyda staff sy'n siarad Cymraeg. Nod y prosiect yw dangos sut mae ein staff yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd ac annog eraill i ymgeisio am swyddi sydd efallai'n meddwl nad yw eu Cymraeg ar y lefel ofynnol.' Bydd y fideos gorffenedig yn cael eu defnyddio ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a blog newydd i gefnogi swydd wag 'Cymraeg yn Hanfodol neu 'Cymraeg yn Ddymunol.'

- Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg ynghyd â'n Swyddog y Wasg a Marchnata wedi bod yn mynychu cyfres o weithdai hyfforddi a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru – Cymraeg 2050 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog.'

## HERIAU A SYMUD YMLAEN

Rydym bellach yn wynebu cyfnod ariannol anrhagweladwy o'n blaenau a fydd hefyd yn cyflwyno heriau pellach gan fod angen i ni addasu a chynllunio'n dda ar gyfer hyn. Mae meysydd ffocws a nodwyd drwy ein fframwaith rheoli perfformiad yn cynnwys:

- Mae rolau mewn rhai gwasanaethau a gweithlu gweithredol medrus sy'n profi lefelau uchel o heriau recriwtio a chadw (nid yw'r mater hwn yn unigryw i Wrecsam) e.e. Gofal Cymdeithasol (Gweithwyr Cymdeithasol/Therapyddion Galwedigaethol), Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol o fewn meysydd gwaith arbenigol megis gyrwyr HGV a staff cefnogi gofal arbenigol sy'n cyflawni rolau hollbwysig e.e. hebryngwyr ysgol a danfonwyr. Caiff hyn ei waethygu gan farchnad gystadleuol gydag awdurdodau cyfagos a chontractwyr lleol sy'n ceisio meithrin gwydnwch yn eu hadnoddau staff. Yn 2024/25 byddwn yn parhau i ddatblygu ein cyfleoedd Meithrin Ein Talent Ein Hunain yn ogystal â datblygu dulliau arloesol o recriwtio yn y meysydd hyn.

- Bydd y cyngor yn parhau i hyrwyddo ein dull modern a hyblyg o weithio, ein buddion gweithwyr a darpariaethau polisi gweithlu, arddangos gwerthoedd ein cyngor ac addasu ein harferion recriwtio. Heb y rhain ni fyddwn mewn sefyllfa i gystadlu a denu ymgeiswyr i ymgeisio am rolau o fewn y cyngor. Bydd unrhyw fwlch cyflog ar sail rhyw a nodir yn cael ei adolygu a'i ddeall yn well. Bydd gwaith priodol yn dechrau i fynd i'r afael â'r bwlch hwn a bylchau cyflog eraill lle bo'n berthnasol.

- Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Pobl newydd sydd wedi'i chynllunio i barhau i adeiladu ar gyflawniadau cadarnhaol a darparu ein gweledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau ar gyfer ein gweithlu ar gyfer y dyfodol yn gysylltiedig â chyflawniadau ein nodau yng Nghynllun y Cyngor a chan ystyried yr ansicrwydd pellach hwn sydd o'n blaenau.

- Yn 2024/25 rydym yn ceisio cynnal ein ffocws ar iechyd a lles tra'n cydbwyso a chynnal gofynion darparu gwasanaethau gan ein bod yn cydnabod bod y gwaith ataliol hwn yn bwysig i iechyd a lles ein gweithlu ond mae ganddo hefyd y potensial i atal absenoldebau os yw gweithwyr yn cael y cymorth maent ei angen tra yn y gwaith.

- Byddwn yn sicrhau bod ein hiaith a'n diwylliant Cymraeg yn parhau i ffynnu o fewn ein gweithlu a'n cymunedau yn mynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r iaith a gwella recriwtio siaradwyr Cymraeg o fewn y cyngor.



## EIN MESURAU CANLYNIADAU

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN /CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG[1] 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu canran y gweithlu sy'n cytuno â'r datganiad 'rwy'n cael cyfleoedd i ddatblygu a gwella i'm potensial llawn' (arolwg gweithwyr). | Gwella (cynnydd) | 57% | Cynnydd o'r llinell sylfaen | Arolwg i'w ddisgwyl Mai/ Mehefin 2024 | Ddim yn cael ei adrodd |
| Canran y gweithwyr sy'n nodi eu bod yn cael eu cefnogi gan fentrau iechyd corfforaethol (arolwg gweithwyr). | Mesur Newydd | Cwestiwn newydd o fewn yr arolwg | Sefydlu llinell sylfaen | Arolwg i'w ddisgwyl Mai/ Mehefin 2024 | Ddim yn cael ei adrodd |
| O'r gweithlu sy'n gadael cyflogaeth â'r Cyngor yn ystod y flwyddyn; y canran o'r rhain a adawodd yn wirfoddol. | Gwella ( gostyngiad) | 69.5% gan gynnwys ysgolion | Gostyngiad o'r llinell sylfaen | 63.5% GWYRDD | Ydy |
| Bwlch cyflog rhwng y rhywiau; y gwahaniaeth rhwng enillion fesul awr dynion a merched fel canran o enillion dynion. | Gwella ( gostyngiad) | 11.2% CBSW | Cynnal lefelau cyfartalog llywodraeth leol | 4.9% GWYRDD | Disgwyl ffigwr LIC |
| Canran y bobl sy'n fodlon â'r ddarpariaeth Gymraeg | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Arolwg wedi'i gwblhau Aros am ffigwr terfynol ar gyfer llinell sylfaen GWYRDD | Ydy |

1 COMG yn seiliedig ar gynnydd a wnaed tuag at y targed diwedd blwyddyn. Gweler tudalen 8am ddiffiniadau.

## GOSOD Y CYD-DESTUN

Er mwyn helpu i ddeall y darlun cyfredol ar gyfer pob blaenoriaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam rydym wedi cynnwys set o ddangosyddion cyd-destunol. Tueddiadau a materion lleol a chenedlaethol yw'r rhain y mae ein canlyniadau'n cyfrannu atynt. Mae'r rhain yn ddangosyddion sy'n gofyn am gydweithrediad ac integreiddiad ein partneriaid, sefydliadau allanol a chymunedau i wella, fodd bynnag disgwylir y bydd blaenoriaethau'r cyngor a'r gwaith sy'n sail iddynt yn effeithio ar y dangosyddion yn y tymor hir.

| DANGOSYDD CYD-DESTUNOL | BETH YW PERFFORMIAD DA? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL | DIWEDDARIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|
| Nifer y siaradwyr Cymraeg yn Wrecsam | Gwella (cynnydd) | 2021<br>12.2% Wrecsam<br>17.8% Cymru | Dim i'w ryddhau ar unwaith – data cyfrifiad |
| Bwlch cyflog rhwng y rhywiau; y gwahaniaeth rhwng enillion fesul awr dynion a merched fel canran o enillion dynion | Gwella (gostyngiad) | 2022<br>Cymru 14.4%<br>14.9% Sector Cyhoeddus | 2023<br>Cymru 14.3%<br>14% Sector Cyhoeddus |
| O'r gweithlu sy'n gadael cyflogaeth â'r Cyngor yn ystod y flwyddyn; y canran o'r rhain a adawodd yn wirfoddol. | - | 2022/23<br>83% Cymru | Aros am y diweddariad diweddaraf |
| Canran y dyddiau sydd ar gael a gollwyd (cyfradd absenoldeb oherwydd salwch) | Gwella (gostyngiad) | 2022<br>3.6% Cymru | Aros am y diweddariad diweddaraf |

# ATODIAD 1 – PERFFORMIAD CANLYNIAD CYDRADDOLDEB

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 1:

Mae'r cyngor yn 'gyflogwr o ddewis' sy'n gallu recriwtio a chadw gweithlu amrywiol a chynaliadwy, gyda dull modern o weithio a fframwaith o wobrau a buddion i weithwyr.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN [1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| O'r gweithlu sy'n gadael cyflogaeth â'r Cyngor yn ystod y flwyddyn; y canran o'r rhain a adawodd yn wirfoddol. | Gwella (gostyngiad) | 69.5% gan gynnwys ysgolion | Gostyngiad o'r llinell sylfaen | 63.5% GWYRDD | Ydy |

- Rydym wedi parhau i ymgorffori ffyrdd newydd o weithio drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyda chanllawiau diwygiedig yn cael eu rhyddhau ar ddiwedd 2023/24.
- Mae 94.7% o'n myfyrwyr a ddechreuodd gynllun Meithrin ein Talent ein Hunain yn dal i fod yn rhan o'r cynllun neu wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Mae cyfleoedd cynllun Meithrin ein Talent ein Hunain yn cynnwys; prentisiaethau corfforaethol, hyfforddeiaethau yng Ngwasanaeth yr Amgylchedd, Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol, hyfforddeion Iechyd a Diogelwch, Hyfforddeion Cyfreithiol, prentisiaethau crefft tai a Chymdeithion Adnoddau Dynol.

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 2:

Bydd unrhyw fwlch cyflog ar sail rhyw a nodir yn cael ei adolygu a'i ddeall yn well. Bydd gwaith priodol yn dechrau i ymdrin â'r bwlch hwn ac unrhyw fylchau eraill mewn cyflogau pan fo'n berthnasol.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN [1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwlch cyflog rhwng y rhywiau; y gwahaniaeth rhwng enillion fesul awr dynion a merched fel canran o enillion dynion. | Gwella (gostyngiad) | 11.2% CBSW | Cynnal lefelau cyfartalog llywodraeth leol | 4.9% GWYRDD | Disgwyl ffigwr LIC |

- Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Gweithlu wedi'i ddiweddaru a bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2024/25.
- Yn 2024/25 byddwn yn parhau i adolygu unrhyw fylchau cyflog yn unol â lefelau cyfartalog llywodraeth leol a nodi unrhyw feysydd datblygu.

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 3:

Mae ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu â ni'n hawdd, trwy systemau digidol sydd wedi'u hadeiladu i amgylch eu hanghenion. Mae ein gwasanaethau yn gynhwysol ac rydym yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r cwsmeriaid hynny a hoffai ddefnyddio ein gwasanaethau digidol, yn ogystal â pharhau i gynnig ffyrdd mwy traddodiadol o gysylltu â ni, ar gyfer y rhai sydd ei angen.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN[1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein ac sy'n teimlo ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar ein gwefan. | Cynnal | 95% | 95% | 94.75% GWYRDD | Ydy |
| Canran y ceisiadau gwasanaeth trwy hunan wasanaeth yn hytrach na thrwy deleffoni wedi'i gyfryngu. | Gwella (cynnydd) | 77% | 80% | 81% GWYRDD | Ydy |

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 4:

Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn ffynnu o fewn ein gweithlu a'n cymunedau ac yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN[1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl sy'n fodlon â'r ddarpariaeth Gymraeg | Gwella (cynnydd) | Mesur Newydd | Sefydlu llinell sylfaen | Arolwg wedi'i gwblhau<br>Aros am y ffigwr terfynol<br>GWYRDD | Aros am y ffigyrau terfynol |

- Ym mis Ionawr 2024, cynhaliodd Tŷ Pawb ddigwyddiad Cymraeg i hyrwyddo a dathlu addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam a oedd yn cynnwys lansio ffilm hyrwyddo a gwefan newydd, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad rhwng gwasanaeth Hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg, clwstwr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a budd-ddeiliaid fforwm y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Gwaith parhaus wedi'i gwblhau yn y cyfnod cyn cynnal Eisteddfod 2025, gan weithio'n agos gyda'n partneriaid ac ymgysylltu â busnesau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod a'r buddion economaidd a diwylliannol a ddaw yn ei sgil i Wrecsam.
- Ffocws yn y dyfodol ar annog mwy o weithlu ac Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gael mynediad at adnoddau dysgu Cymraeg

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 5:

Mae Wrecsam yn lle y mae pawb yn gwybod y gallant gymryd rhan i ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau. Pobl yn teimlo'r ymgysylltiad a bod y cyngor yn ymgynghori â nhw ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a ble bo'n bosib ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau; a gwneud i bethau ddigwydd gyda'n gilydd.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN[1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llai o amrywiad rhwng grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (Deddf Cydraddoldeb 2010) o'i gymharu â demograffeg y Fwrdeistref Sirol, yng ngweithgareddau cynhwysiant y Cyngor | Gwella (gostyngiad) | Amrywiant yn y grwpiau oedran iau:- 26.72% | Lleihau amrywiant mewn grwpiau oedran iau i lai nag 20% | -20%<br>Dim ymgynghoriadau corfforaethol yn ystod 2023/24, sgôr yn adlewyrchu canlyniad ymgynghoriadau 2022/23<br>GWYRDD | Ydy |

- Er mwyn cefnogi'r gwaith o ymgorffori ymagwedd y cyngor at gyfranogi, sefydlwyd grŵp Cefnogwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chyfranogi. Wrth symud ymlaen y nod yw datblygu rôl yr hyrwyddwyr i gefnogi ein Strategaeth Gyfranogi, a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 6:

Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camfanteisio, trais a holl ffurfiau o gamdriniaeth, trwy weithio mewn partneriaeth i gynyddu ymwybyddiaeth o ddioddefwyr camfanteisio a'r llwybrau adrodd sydd ar gael.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN 1 A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y plant a phobl ifanc y mae eu risg o Gaethwasiaeth Fodern wedi'i lleihau | Gwella (cynnydd) | Q1 23/24 – 27% | 30% | 44.55% GWYRDD | Ydy |

- Cymeradwywyd ein Polisïau Corfforaethol ar Gaethwasiaeth Fodern, Sianelu ac Atal gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Medi 2023.
- Rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer yr achosion a gyfeiriwyd at y Grŵp Rheoli Pobl Ddiamddiffyn mewn Perygl, fodd bynnag mae ymgysylltiad ac aelodaeth partneriaid aml-asiantaeth yn parhau i fod yn uchel gyda gwaith ataliol yn parhau i leihau galw a digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Rydym wedi datblygu proses integredig ar draws holl wasanaethau'r cyngor ar gyfer adrodd am bobl sydd mewn perygl o gaethwasiaeth fodern. Yn 2024/25 byddwn yn gweithio i gryfhau ein fframwaith perfformiad ar gyfer data caethwasiaeth fodern.

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 7:

Mae ein cymunedau yn groesawgar, rydym yn hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth a diwylliannau ein cymunedau ac yn sicrhau mynediad priodol at bob gwasanaeth i bawb.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN [1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefnu / cefnogi nifer o ddigwyddiadau / gweithgareddau ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru i hyrwyddo integreiddio rhwng grwpiau a helpu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cymunedol da. | Cynnal | 20 | 20 | 113 (wedi rhagori ar y targed) GWYRDD | Ydy |

- Fe wnaethom barhau i ddarparu hyfforddiant cysylltiedig â Chydlyniant Cymunedol a chodi ymwybyddiaeth i adrannau Awdurdodau Lleol a sefydliadau ehangach a gefnogir trwy Ganolbwynt Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru.
- Yn ystod 2023/24 darparwyd ystod o gyfleoedd Saesneg fel ail iaith (ESOL) i oresgyn rhwystrau i ddysgu gan gynnwys; grŵp ESOL/sgwrsio anffurfiol sy'n agored i holl geiswyr lloches yn Wrecsam, darparwyd darpariaeth ESOL gymysg ar-lein i'r rhai ar Gynlluniau Adsefydlu a chynigwyd y cyfle i fynychu cwrs Saesneg at Ddibenion Proffesiynol ym Mhrifysgol Glyndŵr.i'r rhai â lefel briodol o ESOL

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 8:

Mae pobl sy'n chwilio am loches rhag rhyfel neu argyfwng dyngarol yn cael eu cefnogi i adeiladu dyfodol cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN [1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr aelwydydd ar y Cynllun Cartrefi i Wcráin a'r Cynllun Uwch-noddwr sydd wedi derbyn cefnogaeth i symud ymlaen i lety mwy hirdymor a chynaliadwy yn Wrecsam ac mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr. | Cynnal | 46.8% (cyfartaledd Llywodraeth Cymru) | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | 91.03% GWYRDD | Ydy |
| Canran y bobl sydd wedi cael eu hadsefydlu dan gynllun y Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid a'r Cynllun Adleoli Unigolion Diamddiffyn (oedolion) sy'n cael mynediad at gyflogaeth, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu addysg (gan eithrio Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)) | Gwella (cynnydd) | 60% | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | 62.3% GWYRDD | Ydy |

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 9:

Caiff holl ddysgwyr gael eu cefnogi i wella eu canlyniadau addysgol, a bydd anghydraddoldebau mewn canlyniadau rhwng gwahanol grwpiau o ddysgu yn cael eu lleihau.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN[1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mesur Canlyniadau Cynnydd - PYADd (CA4) | Mesur Newydd | Mesur Newydd | Datblygu'r mesur yn unol â chanllawiau LlC | Yn mynd rhagddo ar gyfer adrodd am 2024/25 GWYRDD | Ydy |
| Canran y dysgwyr ADY sy'n gadael Blwyddyn 11 ac yn pontio'n llwyddiannus o'r ysgol statudol i addysg, gwaith neu hyfforddiant. | Gwella (cynnydd) | 2021/22 Carfan Blwyddyn 11 89% 208 o 233 | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | 93.3% Carfan Blwyddyn 11 2022/23 GWYRDD | Ydy |
| Canran y dysgwyr PYADd sy'n gadael Blwyddyn 11 ac yn pontio'n llwyddiannus o'r ysgol statudol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. | Gwella (cynnydd) | 2021/22 Carfan Blwyddyn 11 92% 236 o 257 | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | 91.3% Carfan Blwyddyn 11 2022/23 MELYN | Na |

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 10:

Mae ein dysgwyr yn cael profiad dysgu cadarnhaol trwy fynediad at amgylchedd sy'n hygyrch ac yn addas i'r diben ac yn caniatáu dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN [1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr adeiladau ysgol sy'n addas i'r diben gyda chategori cyflwr o A neu B – Cynradd | Gwella (cynnydd) | Cynradd:<br>A – 10<br>B – 42<br>C – 6 | Gostyngiad yn nifer yr adeiladau Categori C | Cynradd::<br>A – 10<br>B – 43<br>C – 5<br>GWYRDD | Ydy |
| Nifer yr adeiladau ysgol sy'n addas i'r diben ac yn bodloni categori cyflwr A neu B - Uwchradd | Gwella (cynnydd) | Uwchradd<br>A – 0<br>B – 9<br>C – 0 | Gostyngiad yn nifer yr adeiladau Categori C | Uwchradd<br>A – 0<br>B – 9<br>C – 1<br>Un adeilad Categori C ychwanegol a chynnwys Uned Cyfeirio Disgyblion<br>MELYN | Na |

- Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2023/24, cynigiwyd lle i 100% o ddysgwyr a ymgeisiodd am addysg Gymraeg.

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 11:

Mae plant ac oedolion yn cael eu cefnogi i gael iechyd meddwl a lles da, trwy bartneriaethau gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau yn cydweithio. Mae canol-bwynt ar gymorth iechyd meddwl a ddarperir drwy wasanaethau iechyd meddwl atal a chymorth cynnar er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau yn hwyrach ymlaen.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN [1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mental well-being mean score for young people in secondary schools in Wrexham | Gwella (cynnydd) | 2021/2022 Sgôr gymedrig Wrecsam - 23 Cymru - 23 | Cynnydd (o'r llinell sylfaen) | Survey complete data available 2024/25 | Ddim yn cael ei adrodd |
| Lles emosiynol gwell i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth cwnsela | Gwella (gostyngiad) | Gwahaniaeth: 6.5 (Dechrau:16.50, Diwedd:10.00) | Gostyngiad (o'r llinell sylfaen) | Gwahaniaeth 6.5 (Dechrau: 18.00, Diwedd: 11.50) (adroddwyd yn ôl-weithredol) GWYRDD | Ydy |

- Parhau i gyflwyno ein Strategaeth Atal a Chymorth Cynnar (PEH) gyda grwpiau blaenoriaeth wedi'u sefydlu i ganolbwyntio ar flaenoriaethau PEH gan weithio ar y cyd â'n partneriaid.
- Oherwydd heriau recriwtio, rydym yn bwriadu ail-ganolbwyntio ein nod i fod yn gyngor sy'n deall trawma i ganolbwyntio ar wasanaethau plant sy'n deall trawma.
- Wrth symud ymlaen byddwn yn cefnogi pob ysgol uwchradd a gymerodd ran yn arolwg Lles Emosiynol Craidd Pobl Ifanc i ddefnyddio'r canlyniadau i gynllunio ymyriadau'n briodol.
- Rydym wedi cynyddu nifer y gweithgareddau a gynhelir yn ein Hwb Llesiant yng Nghanol y Ddinas gyda 1532 o weithgareddau yn cael eu cynnal drwy gydol 2023/24. Y ffocws ar gyfer 2024/25 yw ystyried defnyddio'r gofod a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer y caffi Groundwork.
- Rydym wedi cynyddu nifer yr ysgolion (allan o 70) sydd wedi cael cymorth i ymgorffori ymagwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl a lles gyda chynlluniau pwrpasol wedi'u datblygu ar gyfer pob ysgol.

## CANLYNIAD CYDRADDOLDEB 12:

Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau gofal cymdeithasol yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu defnyddio drwy wrando ar yr hyn y mae plant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr yn ei ddweud wrthym.

| MESUR | BETH YW PERFFORMIAD DA YM MLWYDDYN 1? | LLINELL SYLFAEN/ CYMHAROL 2022/23 | TARGED 2023/24 | CANLYNIAD BLWYDDYN[1] A COMG1 2023/24 | TARGED WEDI'I GYFLAWNI? 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y plant a welwyd eu hunain fel rhan o'u hasesiad. | Gwella (cynnydd) | 56% | 80% | 72.53% RED | Na |
| Canran y plant sy'n defnyddio'r Ap Mind of my Own. | Gwella (cynnydd) | 2% o blant sy'n derbyn gofal (diwedd mis Mawrth 2023) | 3% o blant sy'n agored i CSC | 4.31% GWYRDD | Ydy |

- Cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar y strategaeth Plant a Phobl Ifanc yn 2023, gyda'r nod o'i rhoi ar waith a'i lansio yn 2024.
- Mae ein Strategaeth Gyfranogi Gofal Cymdeithasol wrthi'n cael ei datblygu i barhau yn 2024/25.
- Mae angen i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod pob plentyn cymwys gyda'r Gofal Cymdeithasol i Blant yn cael cynnig eiriolaeth a bod hyn yn cael ei gofnodi'n gywir fel y gallwn ymateb i ddirywiad mewn perfformiad.